# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 575 · **Mai 2026** · £1

## "Gwna ddaeargrynfeydd..."*








**Enwau'r aelodau sydd wedi'u hethol yw:**

- Rhun ap Iorwerth (PC)
- Mair Rowlands (PC)
- Elfed Williams (PC)
- Helen Jenner (Ref)
- John Clark (Ref)
- Janet Finch-Saunders (Ceid)


Wrth i'r Llais fynd i'r wasg, mae'r newyddion yn torri am fuddugoliaeth ysgubol Plaid Cymru yn etholiadau'r Senedd, a gynhaliwyd ar Fai 7fed. Er y diwrnod rhyfeddol ym 1999, ble pleidleisiodd 50.3% o'r boblogaeth o blaid Datganoli, dyma'r diwrnod mwyaf arwyddocaol yn hanes y Senedd. Tybed oeddech chi'n gwybod mai dim ond 6721 oedd y mwyafrif hwnnw naw mlynedd ar hugain yn ôl, ond siawns fod sawl un ohonom yn ddigon hen i gofio'r cyffro pan ddaeth y canlyniad olaf i mewn- canlyniad Caerfyrddin. A heddiw, dyma garreg-filltir arall ym muddugoliaeth y blaid honedig 'fach' yn wyneb y don enfawr a ddaeth o gyfeiriad y Dde. Ydi, mae'r canlyniad wedi torri tir newydd yng Nghymru, a chyda'r ganran uchaf o bleidleiswyr ers Datganoli - dros 50% am y tro cyntaf erioed – mae Cymru, a Dyffryn Ogwen yn paratoi am bennod newydd, a hynny dan arweiniad Plaid Cymru ym Mae Caerdydd.




Bu llu o drigolion y Dyffryn yn gweithio'n ddiflino yn ymgyrchu – ar gyfer yr holl bleidiau a safodd – a mawr oedd cyffro'r to iau yn cael yr hawl i bleidleisio am y tro cyntaf yn 16oed. Ond dylem hefyd gymryd ennyd i gofio am rai o gymeriadau'r Dyffryn na chafodd fyw i weld y newid hwn. Unigolion roddodd oes o wasanaeth a chefnogaeth. Mae'r canlyniad hwn yn rhan o'u gwaddol nhw. Oedd, roedd y canlyniad yn 'ddaeargryn' gwleidyddol, ac felly edrychwn ymlaen fel trigolion Dyffryn Ogwen i weld y bennod newydd hon yn datblygu.

***(* Cymru 1937 – R Williams Parry)***





# Llais Ogwan

## Rhif 575
Mai 2026


**Panel Golygyddol**
Ieuan Wyn
Lowri Roberts
Neville Hughes
Dewi A Morgan
Trystan Pritchard
Rhodri Llŷr Evans
Owain Evans
Carwyn Meredydd
Rhys Llwyd
Catrin Wager
Fflur Roberts

**Swyddogion**
**CADEIRYDD**
Carwyn Meredydd
carwynian@hotmail.com

**Trefnydd hysbysebion**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**Ysgrifennydd**
Gareth Llwyd
07887 667956
garethllwyd197@btinternet.com

**Trysorydd**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 /
07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com


## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
**Lowri Roberts.**

Y golygydd ym mis **Mehefin** fydd
**Trystan Pritchard,**
27 Allt Penybryn, Bethesda, LL57 3DB.
07402 373444
E-bost : trystanrp1@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 30 Mai** os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu **Nos Iau, 18 Mehefin,** yn llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45.

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.




## Dyddiadur y Dyffryn

**Mai**
16 Bore Coffi Gorffwysfan. Festri Jerusalem. 10.00 – 12.00.
16 Carnifal Bethesda.Caeau Clwb Rygbi Bethesda. Cychwyn o'r Clwb Peldroed am 1.00yp.
18 Te Bach. Festri Carmel Llanllechid. 2.30 – 4.00.
23 Rali Ffermwyr Ifanc Eryri. Fferm Cochwillan, Talybont. 8.30yb.
26 Gyrfa Chwist. Canolfan Cefnfaes am 6.45.

**Mehefin**
1 Clwb Coffi Talybont, Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00.
4 Sefydliad y Merched Carneddi. Festri Jerusalem am 7.00.
6 Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen. Caeau Dôl Ddafydd.
8 Darlith Goffa Dafydd Orwig. Y Llyfrgell am 7.00.
9 Gyrfa Chwist. Canolfan Cefnfaes am 6.45.
12 Bore Coffi Cymdeithas Jerusalem. Y festri. 10.00 – 12.00.
15 Clwb Coffi Talybont, Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00.
17 Gwibdaith Cymdeithas Jerusalem i Amgueddfa Lloyd George, Llanystumdwy.
18 Noson gasglu a dosbarthu Llais Ogwan. Llawr uchaf Cefnfaes am 6.45.
20 Roc y Ddô. Clwb Rygbi Bethesda
23 Gyrfa Chwist. Canolfan Cefnfaes am 6.45.
26 Cyngerdd Côr Penrhyn. Eglwys Crist Glan Ogwen am 7.00.
29 Clwb Coffi Talybont, Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00.
30 Gyrfa Chwist. Canolfan Cefnfaes am 6.45.

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £30 | Lowri Williams, Caernarfon. |
| £10 | Elfed Bullock, Bethesda. |
| £20 | Er cof am Elsie Evans, Llanrug, 6 Garneddwen, oddi wrth y teulu. |
| £15 | Andre Lomozik, Bethesda. |

***Diolch yn fawr***

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain**
Yn anffodus, oherwydd cynnydd aruthrol yng nghostau postio, 'rydym wedi cael ein gorfodi i godi ein pris i £35 y flwyddyn.

**Owen G Jones**, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
(Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Clwb Cyfeillion

**Gwobrau Mai**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (25) | Muriel Owen, Llandygai. |
| £20.00 | (88) | Linda Parker, Bethesda. |
| £10.00 | (176) | Glyn P. Owen, Amwythig. |
| £5.00 | (64) | Rita Bullock, Bethesda. |

***Diolch yn fawr***

***Newyddion Mehefin i'w dderbyn erbyn dydd Sadwrn, 30 Mai. Dyddiad cyhoeddi 16 Mehefin***





***Oes gennych chi ddiddordeb mewn hysbysebu yn Llais Ogwen? Cysylltwch a Neville Hughes - nev_hughes@btinternet.com***



Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru
CYMRAEG


***Cysylltwch â ni: golygydd@llaisogwan.com***



# DNA – Darganfod cyfrinach Bywyd: chwa o awyr iach i'r theatr Gymraeg

Mae'n debyg mai cynhyrchiad diweddaraf Cwmni Pendraw yw'r ddrama gyntaf gyda phwnc 'gwyddonol' yn y Gymraeg. Bydd DNA – Darganfod cyfrinach bywyd yn agor Mai 28 -30 yn Pontio cyn teithio trwy Gymru fis Mehefin. Darganfyddiad strwythur DNA sydd dan y microsgop yma, darganfyddiad sydd wedi chwyldroi ein byd.

**Cwmni lleol**

Ond beth yw'r cyswllt efo Pesda? Wyn Bowen Harries, bellach o Dalybont, yw awdur a chyfarwyddwr y cyfan, gyda Deri Tomos yn gyd-gyfarwyddwr y Cwmni, Patrick Rimes yn darparu'r cerddoriaeth fyw ar gyfer y Sioe ac Eli Elis-Williams yn ei hyrwyddo.

Mae'r ddrama'n datgelu cyfraniad Rosalind Franklin, wrth iddi gyflawni cam allweddol yn y stori. 'Benthycwyd' ffrwyth ei gwaith trylwyr gan James Watson a Francis Crick, a lwyddodd i ddatrys y cod, gan wedyn ennill Gwobr Nobel.

Wrth gwrs, rydym yng nghyd-destun y 50au, ac felly hefyd y sialensiau a wynebwyd gan Rosalind, cymeriad anghonfensiynol a heriodd stereoteipiau'r cyfnod.

Mae'r cyfan yn nwylo cast profiadol: Siôn Emyr, Llŷr Evans, Morfudd Hughes a Manon Wilkinson.

**Stori dditectif**

Fel y pwysleisia Wyn Bowen Harries, stori dditectif yw hon. Rosalind Franklin yw ein 'ditectif' sy'n egluro'i gwaith a'i heriau wrth ei chyfaill a'i mentor, Adrienne Weill. Rydym yn dod i ddeall cyfraniad Rosalind gyda chymorth tafluniadau ar y set a fydd yn darlunio'r elfennau gwyddonol mewn modd syml a chlir. Cai Dyfan sy'n gyfrifol am y dylunio, gyda goleuo a thafluniadau gan Ceri James.

Bydd trefniant gwreiddiol o ganeuon a cherddoriaeth y cyfnod yn cael ei chwarae'n fyw gan Patrick Rimes yn plethu drwy'r cyfan. Yn ogystal â bod yn gerddor traddodiadol ac yn aelod o Vrï, a chyn hyn, Calan, mae Patrick yn gyfansoddwr, yn drefnydd cerddoriaeth ac yn arweinydd talentog.

Dywed Wyn: "Rydym fel cwmni'n arbenigo mewn dod â themâu amgylcheddol a hanesyddol i'r llwyfan. Y tro hwn, roeddwn eisiau ymchwilio'n ddyfnach i faes mwy gwyddonol a dangos sut mae gwyddoniaeth yn newid ein bywydau, bod straeon gafaelgar yn gysylltiedig â rhai o'r darganfyddiadau pwysicaf, a bod merched wedi gwneud cyfraniadau o bwys sydd wedi cael eu tanbrisio yn y gorffennol!"

"Mae stori gref yn hanfodol, a theimlwn fod stori dditectif, ac yn wir, stori gariad yma. Roedd ymroddiad Rosalind a'i chariad at ei gwaith yn amlwg. Er hyn, ac yn ddiarwybod iddi, roedd Rosalind hithau'n destun cariad ac edmygedd ei ffrindiau a'i chyd-wyddonwyr, ond i'w gwaith ac i wyddoniaeth y rhoddodd hi ei hymroddiad a'i chariad yn gyfan gwbl."

Cyflwynwyd y sgript i gystadleuaeth Y Fedal Ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol 2024 – y flwyddyn y tynnwyd y gystadleuaeth yn ôl. Dyma ran o'r feirniadaeth:

"Darn uchelgeisiol o theatr sy'n cyflwyno gwyddoniaeth, a sut mae merched bob amser wedi chwarae'n ail ffidil i ddynion yn y byd gwyddonol. Mae'r ddrama fyd-eang hon yn chwa o awyr iach i'r theatr Gymraeg."

Am fanylion y daith ewch draw i wefan Cwmni Pendraw.

(Gyda diolch i Ogwen 360)

# Gareth (Saer) Jones, Pant Glas

Dymuna Nancy Jones, 10 Pant Glas a'r teulu i gyd, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn ystod eu profedigaeth ddiweddar.

Diolch yn fawr iawn hefyd i bawb a gyfrannodd arian er cof am Gareth. Rhoddwyd y cyfraniadau, gwerth cyfanswm o fil o bunnoedd, i wasanaeth hyfforddiant ambiwlans Gogledd Cymru. Mae Nancy i'w gweld yn y llun gydag Aaron o'r gwasanaeth ambiwlans. Diolch!



# Gwerthiant yn ardal Maes Ogwen, Tregarth

Mae Llais Ogwan yn parhau i chwilio am rhywun i werthu'r Llais yn ardal Maes Ogwen yn dilyn marwolaeth y diweddar Fred Buckley. Byddem yn falch iawn o glywed gennych os gallwch gynorthwyo gyda'r gorchwyl hwn. Mae ein gwerthwyr yn ceisio cael pawb i dalu am y flwyddyn fel bod modd rhoi copi trwy'r blwch llythyrau pob mis.

'Rydym hefyd yn ceisio darganfod pwy oedd yn derbyn copïau o'r Llais gan y diweddar Fred Buckley yn yr ardal hon o Dregarth. Byddem yn ddiolchgar pe byddai'r pobl a oedd yn derbyn copi yn cysylltu gyda'r Ysgrifennydd: Gareth Llwyd
Ffôn: 07887 667956
e-bost: garethllwyd197@btinternet.com
er mwyn i ni sicrhau eich bod yn derbyn copi o'r Llais trwy'r drws yn y dyfodol

Cysylltwch gyda'r Ysgrifennydd os gwelwch yn dda.
Diolch am eich cydweithrediad.

## Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

### Capel Bethlehem

*Oedfaon (am 2 o'r gloch)*
Mai 17: Mr. Arfon Wyn.
Mai 24: Parchg. Dafydd Coetmor Williams.
Mai 31: Parchg. Casi Jones.
Meh. 07: Parchg. Alan Spencer.
Meh. 14: Parchg. Anna Jane Evans.
Meh. 21: Oedfa i'w threfnu.

*Croeso cynnes i bawb.*

**Gair o gydymdeimlad**
Hoffem gydymdeimlo'n gywir â theulu'r ddiweddar Sylvia Lea, 1 Maes-y-Groes gynt, a fu farw'n dawel yn Ysbyty Gwynedd ar y 4ydd o Ebrill.

Mae llawer ohonom yn cofio Sylvia, a'i diweddar briod, Norman, yn cadw'r siop bapur newydd, N.a S. Lea, ym mhendref Bangor yn ystod wyth a nawdegau'r ganrif ddiwethaf. Byddai'n bleser bob amser galw yn y siop.

Tra'n byw yn Nhalybont, yr oedd y ddau yn aelodau gweithgar a gwerthfawr o bwyllgor Neuadd Talgai.

Cynhaliwyd angladd Sylvia yn Amlosgfa Bangor ar 28ain o Ebrill. Cofiwn yn annwyl amdani.

**Dymuniadau gorau**
Mae Rita (Post) yn disgwyl am driniaeth ar ei chalon ond, ar hyn o bryd, mae hi'n mynd yn ôl a blaen i Ysbyty Broadgreen fel io-io i gael bob math o brofion. Mae hi'n canmol caredigrwydd y Staff i gyd: ond serch bod ganddi dacsi o'r radd flaenaf, mae'r daith yn flinedig, yn enwedig pan mae'n gorfod cael ei hail-adrodd sawl tro. Gobeithio fydd hi ddim yn hir, Rita, nes byddi 'n teimlo'n holl – iach unwaith eto.

**Pentref taclus**
Mae mor hawdd inni gwyno pan mae pobl flêr yn gadael eu sbwriel yn y cae chwarae, neu ar ochr y lôn, felly pleser yw canmol y teuluoedd sy'n dysgu eu plant i ddefnyddio'r biniau.

Penblwydd hapus yn 9 oed iti, Nico, 28 Cae Gwigin. Roedd y cae fel pin mewn papur ar ôl dy barti yr wythnos o'r blaen. Fel dywedodd Athronydd o'r Almaen erstalwm, "Petai pawb yn ysgubo y tu allan i'w ddrws ei hun, buasai'r byd i gyd yn lân."

**Cyfoeth ein hiaith lafar**
Mae pawb yn cael budd mawr a mwynhad o golofn Mary," Iaith Pesda". Wrth inni sgwrsio'n ddiweddar, cynnigiais y dywediad, "heb sychu'i cheg". Mae'n un da, tydi? Ond 'phia'i mono fo. Gan f'annwyl ffrind, Mrs. Margaret Hughes (Anti Maggie), mam Iris a Nev, glywais i hwnnw gyntaf, a hithau'n Gofi balch. Roedd hi'n meddu ar doreth o ymadroddion o'i thref enedigol. Mae'n braf cael ein hatgoffa ohonynt, ac ohoni hithau.

# Symud tŷ

Maddeuwch imi am stwffio i 'Newyddion o Dalybont', ond rydw wedi cael caniatâd gan y Gohebwyr lleol i adrodd peth o'm hanes, cyn imi symud i'm cartref newydd yng Nghricieth. Maen nhw wedi fy siarsio i beidio â bod yn hirwyntog, felly gwnaf fy ngorau i gadw 'ngair. 'Fues i erioed yn un am frolio fy hun, beth bynnag. A deud y gwir, byddaf yn treulio cryn dipyn o amser â mhen yn fy nghragen, a minnau wedi cyrraedd y fath oedran.

Dw i'n cofio dim am y daith i Gymru: doeddwn i fawr mwy na babi ar y pryd. Digon yw deud bod y cyfan yn gymaint o hunllef, fel mod i wedi llwyddo i'w fwrw yn llwyr dros fy nghof.

Fy atgof cyntaf yw glanio yn siop anifeiliad anwes Rowlands, yn Neuadd y Farchnad, Bangor. Clywais wedyn mai fi a 'nheulu oedd ymysg y crwbanod cyntaf i gael ein hanfon dramor ar ôl y Rhyfel. Gellwch fentro bod diddordeb mawr ynom ym mhlith y cwsmeriaid a ddeuai i'r farchnad: doedd bron neb wedi gweld creaduriaid fel ni yn fyw. Nid mod i'n brolio, ond roeddem fel un o Saith Rhyfeddod y Byd bryd hynny.



Un diwrnod, daeth geneth ifanc dwt i'r siop, gyda'r bwriad o chwilio am grwban yn anifail anwes. Clywais hi'n sgwrsio efo'r perchennog, ond 'ddeallais i yr un gair. Beth bynnag, mae'n rhaid ei bod wedi cymryd ffansi garw ata'i, achos ar ôl iddi dalu hanner coron i foi'r siop, cefais fy rhoi mewn bocs sgidia', ac i ffwrdd â fi ar y bws i bentref bach Talybont. Enfys oedd enw'r eneth ifanc, ac 'roedd hi a'i gŵr, Llew, wedi dod i fyw i dŷ newydd sbon,- 2 Cae Gwigin. Y flwyddyn oedd 1950. Roedd ganddynt fabi bach, Avril, ychydig o fisoedd oed. Cyn pen dwy flynedd, cawsant ferch fach arall, a'i galw'n Meriel. 'Roedd y teulu'n gyflawn.

Yn yr ardd ffrynt fues i'n aros ar y dechrau. Roedd hi'n gynnes braf yno. Daeth plant y pentref i gyd i edrych amdanaf, dan bwyso ar y ffens i gael golwg gwell arna'i. Roeddwn i'n dipyn o seren yr adeg honno. 'Fuo gen i erioed enw bedydd. 'Tortoise' oedd y plant yn fy ngalw pan ddois i yma gyntaf, ond 'dw i'n sylwi mai 'Crwban' mae nhw'n ei alw arna' i bellach; enw Cymraeg iawn, ynte?

Roeddwn i'n ddigon hapus yn fy milltir sgwâr ond, un diwrnod, penderfynais bod hi'n amser imi ddod i adnabod fy mro. Llwyddais i stwffio o dan y ffens, ac i ffwrdd â fi ffwl-spîd ar draws y cae. Bu Llew ac Enfys yn chwilio'n ffrantig amdanaf ym mhob twll a chornel; yn methu'n lân â dallt lle medrwn i fod. Aethant ar ofyn plant y pentref i helpu, a chynnig chwe cheiniog yn wobr am gael hyd imi. Wedi cyrraedd y cae pellaf roeddwn i; yn beryglus o agos i'r afon. Yn sicr, achubodd yr enillydd bach hwnnw fy mywyd, a minnau'n methu nofio.

Erbyn hyn mae'r plant rheiny yn eu hwythdegau, ac Enfys yn 96. Mae hi'n dal i ofalu mor dyner amdanaf. Pob gwanwyn pan fyddaf yn deffro, ar ôl cysgu'n braf drwy'r gaeaf, bydd hi'n rhoi bath imi, i ystwytho ychydig ar y cyhyrau. Bydd hi'n golchi fy llygaid yn ofalus ac yn rhoi tamaid o fwyd blasus imi. Bydd hi wastad yn chwilio am y dail dant-y-llew brasaf: rhai Capel Bethlehem ydi'r gorau gen i.

Gallwch fentro mai teimladau cymysg iawn sydd gen i wrth feddwl am symud, a minnau wedi byw yn Nhalybont am 76 o flynyddoedd: ond, o leiaf, mae'r bwthyn bach clyd wnaeth Llew imi erstalwm yn cael mynd hefyd, diolch byth. Byddaf yn dal i glywed y Gymraeg o'm cwmpas, a gwn y bydd Dylan yn feistr ffeind. Sut na fasa fo, ac yntau'n or-ŵyr i Llew ac Enfys?

Hwyl fawr i chi am y tro. Anfonaf gerdyn post o Gricieth.

Enfys a'r crwban.


L. STURRS
A'I FEIBION
SEFYDLWYD YN 1965
ADEILADWYR
HEN IARD STESION,
FFORDD Y STESION, BETHESDA
FFÔN: 600953
isturrs@googlemail.com


*Cysylltwch â ni:*
*golygydd@*
*llaisogwan.com*

# Cyfres Tafarnau'r Ardal; rhif 2

## Y Royal Hotel

**'Beth am fynd am beint i'r Roial yn Capal Cerrig fory?'**
Peidiwch â phoeni fod y Royal yn bell o Fethesda oherwydd pan adeiladwyd y gwesty gan Richard Pennant yn 1798 yr oedd Capel Curig yn perthyn i blwyf Llandygái ac felly yn rhan o'i diriogaeth ef yn y Penrhyn.

Benjamin Wyatt oedd prif asiant y stad rhwng 1786 a blwyddyn ei farwolaeth yn 1818, ac ef osododd y sylfaeni i ddatblygiad chwarel Cae Braich y Cafn i'w feistr, mesur a drawsnewidiodd holl economi ardal Dyffryn Ogwen. Un o dasgau cynnar Wyatt oedd cynllunio ffordd gymwys i gysylltu rhwng y chwarel â'r angorfa yn Aber Cegin, rhagflaenydd porthladd Penrhyn, tasg a gyflawnodd erbyn 1788. Ei dasg nesaf oedd ymestyn y ffordd o Goed y Parc i Lyn Ogwen i ddilyn ochr orllewinol Nant Ffrancon i osgoi talcen enbyd y Benglog a ddisgrifiwyd gan Thomas Pennant fel un o'r mannau peryclaf i deithwyr yng Nghymru. Erbyn 1798 yr oedd y ffordd wedi ei hymestyn i Gapel Curig ac yno yr adeiladwyd gwesty'r Royal yn ddatblygiad pur wahanol yn entrepreneuriaeth ymwthiol Richard Pennant.




Yr Wyddfa o Gapel Curig tua 1855, gyda'r Royal Hotel (Plas y Brenin heddiw).
Llun drwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Mae llun cynnar o'r gwesty yn dangos pa mor enfawr oedd ei faint mewn lleoliad ysblennydd ar lan Llynnau Mymbyr ac yn perchnogi golygfa fendigedig o'r Wyddfa a'i chriw i gyfeiriad y gorllewin. Ei faint yn creu penbleth i'r gwyddonydd byd-enwog, Faraday, ar ei ymweliad â'r gwesty yn 1819, pryd y gorfodwyd ef i holi cydymaith pa un oedd y drws i mewn gan fod cymaint ohonynt i ddewis ohonynt. Derbyniodd y gwesty gymeradwyaeth arbennig gan Bingley, un o'r ymwelwyr cynnar yn 1813, am ei gyfforddusrwydd, ei lanweithdra a'i foesgarwch, gan ychwanegu na fyddai ei well yn Lloegr. Gallai Bingley siarad o brofiad oherwydd ar ymweliad cynharach â'r ardal gorfodwyd ef i aros yn yr hyn a ddisgrifiodd fel "a mean pot house". Y gair arwyddocaol a ddefnyddiodd Bingley oedd "civility", gair sy'n awgrymu y cynlluniwyd y gwesty ar gyfer gwesteion oedd yn teimlo'n anghysurus mewn amgylchfyd dieithr a thlawd gyda'r brodorion yn siarad iaith oedd yn gwbl annealladwy iddynt.

Gellir cyfrif y Royal fel un o'r gwestai cyntaf a agorodd ei ddrysau i dwristiaid ymweld ag Eryri, gan gychwyn y gyfres o westai a ddilynodd yn ystod y 19g ym Metws y Coed, Llanberis a Beddgelert yn benodol. Wrth gwrs, Richard Pennant oedd yn derbyn y clod am ei fentergarwch. Gwrandewch unwaith eto ar glodydd Bingley: 'Drwy ei weledigaeth, adeiladodd ef westy y gwnaiff ymwelwyr glodfori ymddygiad ysbrydoledig a gwirioneddol wladgarol y perchennog, gan mai ef oedd y cyntaf i wneud hynny, a'r cyntaf i adeiladu ffordd i gyrraedd y rhan hon o'r wlad, a chyflawni hyn oll ar draul ei boced ei hun'.

Wel tybed? Yr oedd cyfnod adeiladu rhan olaf y ffordd ac adeiladu'r gwesty yn cydredeg â'r rhyfel rhwng Prydain a Ffrainc a arweiniodd at ddirwasgiad yn y farchnad lechi. Yn gyfrwys iawn, defnyddiodd Pennant, y perchennog caethweision diarbed, ei chwarelwyr di-waith i adeiladu rhannau helaeth o'r ffordd, yn arwydd o'i ddyngarwch efallai, ond yn sicr yn ddull o arbed costau dianghenraid i'w boced. Ac a fyddai gan ddiwydiannwr mor haerllug â Richard Pennant ddiddordeb mewn hybu twristiaeth yn Eryri heb fod rhywun arall yn ei brocio ymlaen? Perthyn y gwesty i gyfres o adeiladau o fraint a bri a adeiladodd Pennant i blesio ei wraig ffroenuchel Anna Susannah - yr arsyllfan ym Mhont Ogwen, y baddondy ar lan y Fenai, y llaethdy ym Mhenisa'r Nant, y fferm fodel yn Nolawen, a'r moderneiddio ar blasty'r canol oesoedd yn y Penrhyn. Ac felly, fe dybiwn, mai ymateb i chwiw ei wraig yr oedd y diwydiannwr yn adeiladu'r Royal.

Ond fel y gall pum mlynedd ar hugain greu cyfnewidiadau. Megis terminus i Ffordd y Lord oedd y Royal, ond yr oedd newid ar ddigwydd. Erbyn 1820 yr oedd Telford wedi adeiladu'r ffordd bost o Lundain i Gaergybi gan ddilyn llwybr newydd drwy Gapel Curig a chreu cyfleoedd i gyfres o westai newydd ddatblygu. Safle ar gyrion y ffordd newydd a fyddai'r Royal, ac er bod y ffordd i Lanberis wedi ei hagor erbyn 1828, ffawd y Royal oedd i aros yn westy balch mewn cilfach yn croesawu ymwelwyr dewisol oedd ar daith i fwynhau mwynderau Eryri.

***John Ll. Williams***


SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd.
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
**ebost:** sales@jrscaffolding.co.uk
**Ffôn/Ffacs:** 01248 601754
07770 568743 (symudol)

MODURON PANDY Cyf.
UNIPART CAR CARE CENTRE
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY

# YSGOL TREGARTH

### Trip preswyl i Plas Menai

Cafodd dysgwyr Blwyddyn 3 drip i'w gofio ar eu hymweliad cyffrous i Blas Menai. Roedd y daith yn gyfle gwych i'r dysgwyr ddysgu sgiliau newydd, gweithio fel tîm a mwynhau gweithgareddau awyr agored. Cafodd y dysgwyr gyfle i weithio fel tîm ar y Fenai mewn canŵ, herio eu hunain ar y wal ddringo a datblygu hyder a dyfalbarhad wrth adeiladu den a chreu tân. Roedd yn brofiad cofiadwy iawn i bawb, gyda llawer o hwyl a dysgu sgiliau newydd drwy brofiadau bywyd go iawn. Roedd pawb wedi ymddwyn yn rhagorol ac roedd yn bleser bod yn eu cwmni.

### Ymweliad gan yr heddlu

Daeth PC Tamzin a PC Eurwen draw i siarad gyda'r plant yn ddiweddar. Roedd y Dosbarth dysgu sylfaen wedi mwynhau dysgu mwy am y gwahanol wasanaethau sydd yn ein helpu, a pha rif sydd angen ei ffonio er mwyn cael cymorth. I orffen y prynhawn cafodd pawb gyfle i wisgo het heddwas a chreu 'keyring' gydag ôl eu bys ynddo. Sgwrs am beryglon amrywiol sylweddau gafodd dosbarthiadau hynaf yr ysgol gyda negeseuon pwysig i bawb. Diolch yn fawr iawn i'r ddwy am ddod draw atom unwaith eto, - mae pawb bob amser yn falch o'u gweld.



### Cystadleuaeth athletau

Llongyfarchiadau mawr i dîm athletau Ysgol Tregarth am eu perfformiad arbennig yn rownd derfynol Sportshall ym Mangor! Fe wnaeth pawb gystadlu'n galed, dangos ymroddiad gwych, ac yn bwysicaf oll – mwynhau'r profiad. Rydym yn hynod falch ohonoch chi i gyd am gynrychioli'r ysgol mor wych. Da iawn chi – rydych wedi gwneud Ysgol Tregarth yn falch iawn!

## Mynydd Llandygâi

**Iola Wyn**, 2 Bryniau Terrace 07774543095

## Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll
(gwendaglyn@hotmail.com)

### Llwyddiant yn Sioe Crufts

Llongyfarchiadau i Nia a Kevin Hughes, Tyddyn Dicwm Bach, ar eu llwyddiant eto eleni gyda'r cŵn Razz a Haf yn y Sioe Gŵn uchod. 'Roeddynt yn cystadlu yn nosbarth y Cŵn Hela, a daeth Razz yn ail allan o unarddeg yn ei ddosbarth! Ni chafodd Haf wobr eleni, ond daeth i'r 8 olaf alan o 17 yn ei dosbarth. Dyma lun o'r ddau gyfeirgi coch (Red Setters). Llongyfarchiadau enfawr gan bawb o'r ardal!





**Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn, Mai 23 – 29, 2026**
Pob dymuniad da i bawb o'r ardal fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod ar Gae Mona eleni. Gwnewch eich gorau glas, a mwynhewch y cyfle i arddangos eich doniau. Ewch â'r teulu i gyd gyda chi, gan fod yno lond gwlad o stondinau difyr, gweithgareddau o bob math, cyngherddau a chystadlu brwd yn y tri Pafiliwn – un gwyrdd, un coch, ac un gwyn. Lwcus iawn, iawn fod Eisteddfod eleni ar garreg ein drws. Mwynhewch!

**Gwaeledd**
Anfonwn ein cofion at Gwilym Owen, 9, Tal y Cae, sydd heb fod yn rhy dda ei iechyd yn ddiweddar. Pob dymuniad da am wellhad, Gwilym, oddi wrth bawb o'ch cymdogion a ffrindiau.

**Ar y Teledu**
Ar y rhaglen 'Heno' yn ddiweddar, clywsom Bleddyn Hedd Williams, Cilfodan, mab Angharad a Gerallt Williams, Ffordd Tanrhiw, yn siarad am ei ymweliad a Chei Conwy i weld cwch arbennig sydd wedi'i angori yno ar hyn o bryd. Enw'r cwch ydi'r 'Orca', a dyma'r unig gopi o'r 'Orca' gwreiddiol, sef y cwch yn y ffilm boblogaidd 'Jaws'. O fewn yr 'Orca' yng Nghonwy mae'r stôf wreiddiol oedd yn y ffilm, a ger y stôf honno y clywsom y geiriau nad anghofiwn o'r ffilm: 'We are going to need a bigger boat!'

Cafodd Bleddyn ei atgoffa o eiriau ei athrawes dosbarth meithrin – yr annwyl Mrs Elinor Holland - yn Ysgol Tregarth un bore: "Neb ohonoch chi i edrych ar y ffilm 'Jaws' ar y teledu heno!" Ac wrth gwrs, fe edrychodd pawb ar y ffilm!

**Merched y Wawr Cangen Tregarth**
Siân Robinson, Ffordd Tanrhiw, oedd y wraig wâdd yng nghyfarfod y gangen nos Lun, Ebrill 13. Dewisodd siarad ar y testun 'Merched Dyffryn Ogwen', a chawsom gipolwg ar ferched enwog a dewr y dyffryn, gan fynd yn ôl ganrifoedd. Gwelsom luniau o ferched ar ffermydd, adref yn eu cartrefi, ac mewn gwaith. Gwyddom pa mor llwm yr oedd hi ar deuluoedd, a'r fam yn bennaf yn gyfrifol am gael y ddau ben llinyn ynghyd. Gweithient mor galed tra 'roedd eu gwŷr yn y chwarel, yn ffermio, neu mewn unrhyw waith arall oedd ar gael. Trwy gyfrwng lluniau, dangosodd galedi, tlodi a dewrder y merched. Gobeithiwn yn y dyfodol y cawn lyfr o waith ymchwil Siân ar ferched Dyffryn Ogwen, a pha mor ddewr a chryf oeddynt yng nghanol caledi yr oes o'r blaen.

Diolchodd Carys Dafydd, Llywydd y gangen, i Siân am noson nad anghofir yn fuan, a dymunwn y gorau iddi yn ei swydd yn Adran Archifau Coleg Y Brifysgol, Bangor. 'Rydym yn ymfalchïo yn llwyddiant Sian, ac yn falch ei bod yn hogan o'r pentref, yn ferch i Mona a'r diweddar Glyn Williams, Ffordd Tanrhiw.

Bu pump o aelodau'r gangen yng Nghinio Merched y Wawr y Gogledd yn y Celtic Royal, Caernarfon ddydd Sadwrn, Ebrill 18, sef Myfanwy, Alison, Anwen, Valerie a Gwenda. 'Roedd yr adloniant yng ngofal y telynor Dylan Cernyw. Braf iawn oedd cael cwmni oddeutu 160 o aelodau o bob rhan o Ogledd Cymru, a chael gwrando ar Lywydd y mudiad eleni, sef Bethan Picton Davies o Sir Benfro. 'Roedd y merched i gyd wedi mwynhau cwmni eu cydaelodau, a phryd o fwyd ardderchog. Elusen y mudiad eleni ydi Canser Cymru, ac erbyn hyn mae swm o dros £25,000 wedi'i gasglu – gwych!

Bydd y cyfarfod nesaf yn Festri Capel Shiloh Newydd nos Lun, Mai 11, pan fyddwn yn croesawu yr actores a'r athrawes ioga, Morfudd Hughes, Llanfairpwll, ar gyfer sesiwn ioga. Croeso cynnes i aelodau newydd ymuno â'r merched.

**Marathon SheUltra yn Llŷn**
Llongyfarchiadau i bob un o'r merched a gymrodd ran yn Marathon y SheUltra yn Llŷn ddydd Sadwrn Ebrill 11. Gwyddom bod amryw o ferched Dyffryn Ogwen ymhlith y ddwy fil a gymrodd ran, a llongyfarchiadau mawr i chi i gyd am ymdrech lew.'Roedd pawb yn cael cyfle i redeg neu gerdded 50 cilomedr (31.7 milltir), gan gychwyn ar draeth Abersoch, a gorffen ar y Maes ym Mhwllheli, gyda phawb yn talu £40 am gael cymryd rhan, a'r arian hwnnw'n mynd at Hospis Dewi Sant ac elusennau yn ymwneud a chanser.

Rhowch wybod i ni am eich ymdrech bersonol chwi – gwyddom yn barod am un o Dregarth a gymrodd ran, sef Nia Hughes, Tyddyn Dicwm Bach. Llongyfarchiadau ar dy ymdrech, Nia!

## Capel Shiloh Newydd

Dyma'r oedfaon am yr wythnosau nesaf am 5 o'r gloch - croeso cynnes i bawb:
Mai 17: Dr Jennie Hurd, Llanymynech
Mai 24: Dr Ian Morris
Mai 31: Y Parch. R O Jones, Gaerwen
Mehefin 7: Trefniant lleol
Mai 14: Dr Huw Tegid Roberts, Llangefni.

**Cofion**
Yn dilyn cyfnod adref o Ysbyty Gwynedd, mae Eirwen Williams, Tyddyn Dicwm, erbyn hyn yn Ysbyty Glan Clwyd. Dymunwn iddi wellhad llwyr a buan, ac anfonwn ein cofion cynhesaf ati. Cofion, hefyd, a brysiwch wella, at bawb o'r ardal sydd adref yn sâl, mewn ysbyty, neu Gartref Gofal. Gadewch i ni wybod pwy ydynt, os gwelwch yn dda!

**Drws Agored**
Mae boreau Gwener yn y Festri yn boblogaidd iawn, a hynod o braf ydi croesawu ein haelodau a'n ffrindiau o'r ardal estynedig atom, yn ogystal a'r ffyddloniaid. Fore Gwener, Ebrill 23, fe sylweddolodd dyn dieithr i'r ardal fod drws y capel ar agor, a daeth i mewn ac eistedd yn un o'r seddau. Pan gyrhaeddodd Margaret a Beryl am eu paned, gwahoddwyd ef i mewn i'r Festri at y criw oedd yno'n cael sgwrs. Americanwr oedd yr ymwelydd, yn aros ym Metws y Coed, ac wedi dod draw i Dregarth i chwilio am wybodaeth am un o'i gyndeidiau, sef y Parchedig Hugh Tegai Hughes, a fu'n weinidog gyda'r Annibynwyr yn yr ardal yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn ôl yr hyn a ddywedodd y gŵr. Ni fu'n weinidog yn Shiloh, ond tybed a oes rhywun yn Nyffryn Ogwen yn gwybod rhyw gymaint o'i hanes. John Hughes oedd y pererin o'r Unol Daleithiau oedd yn chwilio am un o'i hynafiaid, a braf oedd ei gyfarfod, a cheisio datrys ychydig o hanes ei deulu.
Cofiwch bod croeso unrhyw dro i droi i mewn i'r Drws Agored rhwng 10 a 12 ar fore Gwener.

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

STEPHEN JONES
TREFNWR ANGLADDAU CYF
PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS
BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com



# CHWILAIR

## LLYNNOEDD ERYRI

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | P | A | D | A | R | N | A | W | F | H | R | I | E | J | L | C | M | B | V |
| B | H | X | T | J | U | I | S | V | S | H | E | I | M | G | V | H | M | D | W |
| H | U | Z | R | M | A | X | V | **L** | A | D | D | N | A | P | A | U | Q | U | S |
| O | F | R | Y | P | Y | R | Q | **L** | Z | E | G | R | H | C | U | M | T | W | N |
| O | G | Y | W | R | I | A | E | **Y** | S | L | Z | U | T | F | D | N | X | U | P |
| W | W | R | E | H | C | Q | H | **N** | W | S | E | H | O | Y | A | E | E | G | E |
| O | Y | M | R | H | E | P | T | **O** | N | I | T | C | B | F | B | C | U | U | J |
| P | N | L | Y | T | M | I | V | **G** | V | I | D | C | F | B | B | F | R | F | O |
| G | A | J | N | V | I | I | R | **W** | R | X | G | Y | I | M | H | T | T | O | S |
| K | N | O | P | W | R | C | M | **E** | K | C | L | F | B | O | R | C | X | V | R |
| Y | T | N | H | S | T | M | R | **N** | E | L | F | Y | A | J | D | Z | H | B | C |
| W | O | O | S | C | R | A | I | X | N | N | I | L | X | W | J | J | M | B | W |
| T | E | I | X | M | D | X | K | O | F | U | P | C | Q | Y | R | O | I | L | F |
| E | R | N | Z | Q | R | O | N | C | T | D | G | W | S | L | Z | E | B | E | A |
| J | D | Y | K | J | C | N | L | N | L | R | V | O | G | J | P | W | P | G | S |
| O | I | W | W | J | Y | J | Q | U | L | F | S | V | T | X | E | U | G | H | S |
| L | G | R | Z | F | C | W | E | L | L | Y | N | E | A | F | X | I | W | T | Z |
| H | E | O | F | K | V | T | A | N | Y | G | R | I | S | I | A | U | A | G | B |
| N | T | M | K | N | A | N | T | L | L | E | A | D | S | I | K | O | G | D | H |
| B | S | I | U | R | O | X | A | G | X | R | A | E | E | K | K | D | A | N | T |

Yn y Chwilair mis yma mae ENW deuddeg LLYN YN ERYRI i'w ddarganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

DIM OND YN Y CLIW MAE'R GAIR LLYN YN YMDDANGOS.

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 29 Mai. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nad oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i mewn i mi, - bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn.**

Yn anffodus Barbara Anne Conlan, er bod eich atebion ar gyfer Chwilair Mawrth yn gywir, gadawodd y post chi i lawr, gan fod diwrnod cau wedi digwydd dau ddiwrnod cyn i mi dderbyn eich ateb trwy'r blwch post.

Unwaith eto 'dw i yn ddiolchgar i Colin Davies, Blaenau Ffestiniog, a sawl un arall, am ddweud bod gweld enwau'r athrawon yn dod ag atgofion hapus o'u hamser fel disgyblion yn YDO.

Llawer iawn ohonoch wedi methu FRANK yn enw FRANK RHYS JONES, a phawb wedi methu cael J. E. yn enw J. E. Cecil McCarter, felly rwyf wedi derbyn Cecil McCarter fel ateb cywir.

---

**Dyma atebion Chwilair Ebrill:-** Frank Rhys Jones, (1971-79); Idris Williams (tua1948-80); J. E. Cecil McCarter, (1932-71); John Elwyn Hughes, (1964-88); Menai Williams, (1965-69); Moira Muir, (1963-86); Mona E. Jones, (tua 1961-79); Ronald Pardoe, (1951-71); Roy Owen, (tua1947-78); Selwyn P. Hughes, (1959-83); W. Gwenlyn Parry, (1959-65).

**Dyma enwau'r rhai a gafodd hyd i'r atebion cywir:-** Doris Shaw, Bethesda; Huw Williams, Erw Las; Rhiannon Efans, Bethesda; Dewi Lew-is-Jones, Llandegfan; Judith Hughes, Llangoed; Gwen Davies, Bethesda; Olive Williams, Maes-y-Garnedd; Rosemary Williams, Tregarth; Carys Parry, Caerhun; Eirwen Owen, Erw Las; Heulwen Roberts, Ffordd Bangor; Colin G. Davies, Blaenau Ffestiniog.

**Enillydd Ebrill oedd:-** Huw Williams, 4 Erw Las, Bethesda

# Natur o'n Cwmpas

## Y Goeden Griafol



Gan mai tir uchel yw ei chynefin arferol, yng ngodre ein mynyddoedd a'n bryniau, yn aml ar lan afon neu ar dir gwlyb, y gwelwn y goeden griafol yma yn ein hardal ni, a hynny ar ei phen ei hun. Mae llecyn o'r enw Pant-y-griafolen wrth Llyn Dulyn y tu draw i Foel Grach.

Mae'r goeden griafol (*Sorbus aucuparia*) yn aelod o deulu'r rhosyn, a'i henwau cyffredin yn ein hiaith yw 'coeden griafol', 'criafolen' a 'cerddinen' (*mountain-ash* a *rowan* yw'r ddau enw mwyaf cyffredin yn Saesneg). 'Coeden griafol' a ddywedwn ni yma yn Nyffryn Ogwen, a 'choed criafol' am fwy nag un. Ceir amrywiadau yn y rhywogaeth, gan gynnwys cerddinen gyffredin (*mountain-ash; quicken-tree; rowan*); cerddinen ddof (*true service tree*); cerddinen wyllt (*wild service tree; horn-beam tree*)); a cherddinen wen (*white-beam tree*).

Mae'r enw 'cerddinen' yn digwydd yn y gerdd 'Cân y Medd' gan y bardd T. Gwynn Jones a roddwyd ar alaw gan Dafydd Iwan a'i phoblogeiddio. Enwir y goeden yn y llinell agoriadol: 'Yn y mynydd mae'r gerddinen…'. Aeth yr enwau lluosog 'cerddin' yn y gogledd a 'cerdin' yn y de yn enw ar sawl afon a ffrwd, a hynny am fod llawer o goed criafol yn tyfu ar eu glannau. Yn eu mysg mae Afon Cerddin ym Meirionnydd ac Afon Cerdin yng Ngheredigion, ac mae yna Nant Cerdin ym Mrycheiniog, Maesyfed a Morgannwg.

Medr coeden aeddfed dyfu i uchder o 15 metr a byw am 200 mlynedd. Mae ei rhisgl llwyd ariannaidd yn llyfn, a'i dail gweddol hir ar ffurf hirgrwn efo'r ymylon yn ddanheddog. O ran ei blodau, sy'n glystyrau o liw gwyn hufennaidd ym Mai/Mehefin, mae pob blodeuyn unigol efo rhannau atgenhedlu gwrywaidd a benywaidd. Cânt eu peillio gan drychfilod cyn datblygu'n ffrwyth o liw ysgarlad. Bydd yr aeron yn gynhaliaeth i adar megis mwyalchen, bronfraith, tingoch, coch dan-aden, cynffon sidan a chaseg y ddrycin. Caiff hadau'r aeron eu gwasgaru ganddynt ar ôl treulio'r ffrwyth.

Roedd hen goel am y griafolen. Credid bod y goeden yn meddu ar rinwedd i gadw draw ysbrydion drwg, a byddai ein cyndeidiau'n plannu coed criafol mewn mynwentydd. Sail hyn oedd y gred fod y groes y croeshoeliwyd Iesu Grist arni wedi ei gwneud o bren criafol, ac yn ôl traddodiad ystyrid aeron coch y goeden yn symbolau o'i ddiferion gwaed.

Â'i gwên mewn carpiau gwynion, ni hidia
Her Medi â'i waywffon;
Yfory bydd diferion
Yn boer o waed ar ei bron.

Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.


Contractwyr Trydanol
J&W
Jones & Whitehead cyf
Swyddfa Gofrestredig Penrala,
Tregarth, Bangor, Gwynedd,
LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk
NICEIC ELECSA ECA CHAS ECS

TÎM PLAID CYMRU DYFFRYN OGWEN
cynghorydd. Dafydd Meurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140 Arllechwedd
cynghorydd. EinirWyn Williams@gwynedd.llyw.cymru 07747 690456 Gerlan
cynghorydd. Rheinallt Puw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092 Canol Bethesda
cynghorydd. Beca Roberts@gwynedd.llyw.cymru 07436 927237 Tregarth & Mynydd Llandygai
cynghorydd. Paul Rowlinson@gwynedd.llyw.cymru 07949 034967 Rachub


Oes gennych chi ddiddordeb mewn hysbysebu yn Llais Ogwen?

# YSGOLION ABERCASEG A PENYBRYN

**M-Sparc**
Diolch yn fawr i Rhian o M-Sparc sydd wedi bod draw yn Ysgol Pen-y-bryn yn cynnal gweithgareddau amrywiol a chyffrous sy'n ymwneud â datblygu sgiliau Gwyddonol, yn nosbarth Elidir. Cafodd y plant gyfle i gasglu egni goleuni haul dros gyfnod o 36 awr gyda microbits, cyn ei droi wedyn i egni cynaliadwy. Hefyd, cawsant gyfle i ddylunio eitemau 3D amrywiol ar y 'chromebook', cyn eu hargraffu gydag argraffydd 3D. Diolch o galon Rhian am gael datblygu stôr o sgiliau amrywiol yn dy gwmni!

**Pêl-Droed**
Aeth tîm o ferched a thîm o fechgyn Blwyddyn 6 draw i Blas Silyn, Penygroes yn ystod wythnos gyntaf y tymor, i gymryd rhan mewn cystadleuaeth pêl - droed. Cafodd y ddau dîm lwyddiant yn ystod y dydd gan ennill sawl gêm. Braf oedd clywed sawl un yn brolio ein disgyblion yn ystod y dydd am eu hagwedd bositif a chwrtais!

**Heddlu Bach Penybryn**
Cawsom gyfle i groesawu PC Tamzin a PC Eiriona atom yn dilyn y gwyliau i glywed am eu prosiect hynod o ddiddorol! Mae disgyblion Pen-y-bryn wedi cael eu dewis i fod yn rhan o brosiect sy'n rhedeg am y 7 wythnos nesaf i daclo heriau ein hardal leol. Yn ystod y cyfarfod cyntaf, cawsom gyfle i leisio barn ac i drafod gyda'r heddweision pa broblemau yr ydym yn ei deimlo sydd angen sylw yma ym Methesda. Byddwn yn cydweithio gyda'r heddweision dros yr wythnosau nesaf er mwyn ymateb a gweithredu ar yr heriau hyn.

**Parti Pasg**
Braf oedd cael dathlu diwedd Tymor y Gwanwyn gyda Pharti Pasg yn Ysgol Abercaseg. Cawsom ddiwrnod gwych llawn gweithgareddau hwyliog megis peintio wyneb, castell neidio ac amrywiaeth o gemau! Y plant yn haeddiannol yn cael mwynhau ar ddiwedd tymor prysur arall.







**Garddio**
Mae dwylo bach prysur...a gwyrdd Ysgolion Abercaseg a Phen-y-bryn wedi dechrau mynd ati yng nghwmni Alisha bob wythnos yn paratoi'r tir ar gyfer y Gwanwyn a'r Haf. Pawb wrth eu boddau yn chwynnu, plannu a phalu!

**Ymweliad blwyddyn 5 ag Ysgol Dyffryn Ogwen**
Diolch yn fawr i Ysgol Dyffryn Ogwen am y croeso cynnes a gafodd disgyblion blwyddyn 5 yn ddiweddar yn ystod eu hymweliad yno. Braf oedd gweld cyn-ddisgyblion yn ein tywys ac yn gofalu amdanom yn ystod y gweithgareddau amrywiol. Diolch hefyd i staff y gegin am ginio tu hwnt o flasus!

**Boreau/Prynhawniau Agored**
Cawsom hefyd gyfle i groesawu rhieni a theuluoedd y disgyblion wrth iddynt ddod i weld gwaith y plant. Roedd yn cynhesu'r galon cael cyfle i ddal i fyny gyda phawb a gweld balchder yn wynebau'r plant wrth iddynt ddangos eu gwaith caled i'w gwarchodwyr.

## Calendr Llais Ogwan 2027

'Rydym yn cychwyn y gwaith o lunio Calendr Llais Ogwan ar gyfer 2027.

Os yr ydych yn dymuno nodi unrhyw ddigwyddiadau lleol yn y Calendr, mae croeso i chi anfon manylion at Gareth Llwyd (garethllwyd197@btinternet.com) cyn diwedd mis Mehefin ar yr hwyraf. Dyma eich cyfle i ddwyn sylw at ddigwyddiadau a dyddiadau arbennig yng nghalendr Dyffryn Ogwen yn ystod 2027.

Lluniau ar gyfer Calendr 2027 i mewn cyn **31 Mai 2026**, os gwelwch yn dda, er mwyn rhoi digon o amser i gynhyrchu'r calendr. Bydd unrhyw lun o ardal Dyffryn Ogwen (gan gynnwys y Carneddau a'r Glyderau) yn cael ei ystyried.



**Lluniau fformat tirlun, os gwelwch yn dda**

*Cofiwch :*

- ***nodi lle y cymerwyd y llun, rhoi teitl i'r llun, a cynnwys eich cyferiad a'ch enw***

Anfonwch eich llun(iau) trwy ebost at: calendr2027@outlook.com

**Bydd y calendr ar werth ym mis Hydref – tybed fydd eich llun chi ynddo fo?**

# Iaith Pesda
gan Mary Jones

## Clust

**Mae gynnon ni lawer o ymadroddion a dywediadau'n ymwneud â chlustiau a chlywed. Dyma i chi rai ohonyn nw:**

**twll clust/bonclust/clustan**. Ergyd ar ochr pen ydy hyn.

**pigyn yn glust**. Poen yn y glust.

**yn glustiau i gyd.** Dim yn colli dim – "Mae'r fechan 'ma'n glustiau i gyd. Dydi hi'n colli dim!"

**trwm ei glyw**. Ddim yn medru clywed yn dda.

**corn clust.** Cymorth clust hen ffasiwn oedd hwn ar gyfer y trwm eu clyw. Enw arall arno oedd 'corn clywed'.



**clust-fyddar**. Clywed dim. Hefyd, gwrando dim, hynny ydy gwrthod neu bod yn amharod i wrando.

**clustfeinio**. Gwrando'n astud yn fwriadol er mwyn clywed beth mae rhywun yn ei ddweud.

**clust fain.** Medru clywed yn dda iawn.

**clustnodi**. Rhoi nod ar glust dafad gan ffermwr, sef toriad o siâp arbennig. Mae **nodau clustiau defaid** yn arwydd o berchnogaeth. Daeth 'clustnodi' i gael ei ddefnyddio'n gyffredinol i olygu nodi'n fwriadol, fel **clustnodi swm o arian** i ryw ddiben.

**clust-dlws**. Modrwy neu dlws a wisgir ar y glust fel addurn.

**'ga i dy glust am funud.'** Pan fydd rhywun yn gofyn i chi wrando arnynt.

**dros y pen a'r clustiau**. Ystyr hwn ydy yn gyfangwbl – "Mae hi dros ei phen a'i chlustiau mewn cariad!"; "Mae o dros ei ben a'i glustiau mewn trafferthion ariannol."

**clustog**. Ar gadair neu soffa er mwyn eistedd yn fwy cyfforddus. Ei ystyr ydy 'ar gyfer y glust', a phwyso ochr eich pen arno oedd ei bwrpas yn wreiddiol.

**moeli clustiau**. Gwrando'n astud – "Buan iawn oedd hi'n moeli ei chlustiau pan glywodd hi rywun yn dweud ei henw hi."

**taro ar y clyw**. Clywed llais neu sŵn arall yn annisgwyl – "Ro'n i'n hepian cysgu'n braf, a dyma 'na glec yn taro ar fy nghlyw i!"

**Clywch! Clywch!** Cyfarchiad yn cymeradwyo siaradwr cyhoeddus.

## Ambell Air ac Ymadrodd

**laru.** Blino ar wneud rhywbeth neu ar gwmni rhywun – "Dw i 'di laru ar fynd i'r clwb 'na."

**bethma.** Heb fod yn iawn – "Digon rhyw bethma oedd y car gynta' ges i. Ro'dd 'na rwbath o'i le arno fo byth a hefyd."

**cwla.** Mae ystyr hwn yn debyg i 'bethma' – "Mae hi wedi dŵad adra o'r 'sbyty ond mae hi'n dal yn ddigon cwla."

**calad.** 'Cwestiwn calad' ydy cwestiwn anodd, felly hefyd 'syms calad'. Mae 'calad' hefyd yn medru golygu 'cyflym' – "Roedd o'n gyrru'n galad pan a'th o'n erbyn y wal."

**deud petha mowr.** Dweud pethau eithafol gan gynnwys pethau anweddus a rhegi – "Ro'dd o'n un garw am ddeud petha mowr.

**gwalch.** Yn rhyfedd iawn cael ei ddefnyddio fel cyfarchiad cyfeillgar – " Fedri di estyn hwnna i mi gwalch."

**poeni ei hoedal.** Yr un fath a poeni ei enaid, hoedl yn golygu 'bywyd.'

Dyma ddau air y cofiai Heulwen Roberts Ffordd Bangor yn cael eu harfer

**drymgla.** Mae rhywun sy'n llawn annwyd yn drymgla o'r aflwydd.

**arian glwyfon** "Mae'r rhain werth arian glwyfon" meddai'r ffarmwr am ei wartheg.

A dyma rai gan Pat Hamilton, Stryd Fawr, Bethesda.

**ciando** Gair cyffredin a glywn am wely – "Mae'n bryd i ti hwylio am y ciando."

**twca** Cyllell fara.

Ac i orffen, brawddeg a arferai ei thad ei hadrodd iddi a gofyn sut fuasai yn ei ddweud yn Saesneg. Fedrwch chi?

**Yr oedd gan Ioan Ieuan yr eilliwr flwch o fflachiadau yn llogell ei lodrau.**

Diolch am y cyfraniadau.

Cofiwch gysylltu – Mary Jones, 42 Erw Las. Bethesda, LL57 3NN, 07443047642, maryeds@hotmail.co.uk


**CHRIS GRIFFITHS CYF**

**Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu**

**18 Carreg Felin**
**Llandegfan**
**Ynys Môn**
**LL59 5YB**



**☎ 01248 713 369**
**neu 07813 455653**

**Mark Davies**
0 7 4 4 7 8 0 4 1 1 0

Peiriannydd Carafan Teithiol
MD Caravans

Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs

**mark@mdcaravans.cymru**

MCEA

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY
Cyrsiau Byr a Datblygiad Proffesiynol
Short Courses and Professional Development

**Ystyried dysgu rhywbeth newydd?**

- Dysgu Cymunedol
- Uwchsgilio a Datblygiad Proffesiynol
- Cyrsiau pwrpasol i fusnesau
- Darlithoedd cyhoeddus

**Cysylltwch!**

**cyrsiaubyr@bangor.ac.uk**
**01248 382 875**

https://www.bangor.ac.uk/cy/cyrsiau-byr-a-dpp

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

**CANOLFAN CEFNFAES**

## Gyrfa Chwist

Mai 26
Mehefin 9, 23 a 30
am 6.45yh.
Croeso i bawb

## Clwb Coffi Talybont

**FESTRI BETHLEHEM**

Boreau Llun, 10.30 – 12.00

Mehefin
1, 15 a 29
Croeso cynnes i bawb

**FESTRI CARMEL LLANLLECHID**

## Te Bach

Dydd Llun
18 Mai
2.30 – 4.00yp

Croeso cynnes i bawb

**Festri Jerusalem**

## BORE COFFI

Sadwrn, 16 Mai
10.00 – 12.00
Mynediad : £1.00
Elw at Glwb Gorffwysfan

## SEFYDLIAD Y MERCHED CARNEDDI

Cyfarfod ar nos Iau cyntaf o'r mis yn Festri Capel Jerusalem am 7 o'r gloch

*Croeso cynnes i aelodau newydd*

**Festri Jerusalem**

## BORE COFFI

Y GYMDEITHAS
Dydd Gwener, 12 Mehefin
10.00 – 12.00
Mynediad : £1.00






CYMDEITHAS JERUSALEM

## Gwibdaith i Amgueddfa Lloyd George

LLANYSTUMDWY

**Dydd Mercher, 17 Mehefin**

Cychwyn oddi wrth y Capel am 9.30yb

CROESO I BAWB

Cost £20.00
(Bws a Mynediad)

## RALI FFERMWYR IFANC ERYRI

**Fferm Cochwillan Talybont**

**Dydd Sadwrn 23 Mai 2026 am 8.30yb**

***Oes gennych chi ddiddordeb mewn hysbysebu yn Llais Ogwen?***

# YSGOL BODFEURIG

Wel mae hi wedi bod yn gyfnod prysur iawn yn yr ysgol yn ddiweddar. Dyma ychydig o'n hanes.

### Eisteddfod Ysgol

Yn dilyn llwyddiant ein eisteddfod ysgol y llynedd, cynhaliwyd eisteddfod eto eleni. Cafwyd diwrnod arbennig gyda gwledd o ganu, dawnsio, llefaru a chwarae offerynnau. Braf oedd gweld fod enillydd teilwng i'r Gadair am ysgrifennu dyddiadur llawn cyffro. Yn ogystal â'r cystadlaethau llwyfan cafwyd llawer iawn o waith creadigol, o ffotograffiaeth i emwaith, o greu modelau i lawysgrifen. Llongyfarchiadau i dŷ Elidir am ddod yn fuddugol, ac i bob un o blant yr ysgol am gymryd rhan a gwneud y diwrnod yn llwyddiannus. Hoffem hefyd ddiolch i Mrs Llinos Williams am ddod acw i feirniadu – roedd yn bendant yn dasg heriol!



## Ymweliad PC Tamsin

Diolch o galon i PC Tamsin a PCSO Eurwen am ddod acw i gynnal sesiwn gyda rhai o blant yr ysgol. Cafodd plant dosbarth Idwal lawer o hwyl yn dysgu am waith yr heddlu a sut maent yn ein helpu ni. Yna, bu plant hynaf dosbarth Ogwen yn dysgu am wahanol fathau o gyffuriau a'u peryglon. Cafodd pawb fudd o'r gwersi ac rydym yn ffodus o'r cyswllt agos sydd gennym gyda'r heddlu!



Dosbarth Ogwen yn mynd am dro yn yr ardal leol yn ystod ein wythnos liwgar.

### Wythnos Liwgar

Byddwn yn flynyddol yn cynnal wythnos liwgar. Bwriad gwreiddiol yr wythnos oedd i arddio a gwneud yr ysgol yn fwy lliwgar gyda blodau, ond erbyn hyn mae'r syniad wedi tyfu, a bellach mae'n cynnwys amrywiaeth o waith celf, cyfleoedd i fynd am dro yn yr ardal leol, ac i weithio yn yr awyr agored. Mae pawb wrth eu boddau gyda'r wythnos, ac wedi mwynhau cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau.

### Cyfnewid Dillad

Diolch i'r Cyngor Eco am drefnu cyfle i gyfnewid dillad. Daeth pawb â dillad oedd yn rhy fach iddynt neu rhai nad oeddent yn eu gwisgo bellach a'u cyfnewid am ddillad arall. Syniad penigamp i arbed yr amgylchedd.

## Bedydd Idris

Roedd cyffro mawr ymysg cynulleidfa Eglwys Santes Ann a Santes Fair ym Mynydd yn ddiweddar gyda dosbarth Idwal yn edrych ymlaen yn eiddgar at fedydd Idris. Roedd pawb yn y dosbarth wedi bod yn dysgu am fedyddio a sut mae gwahanol grefyddau yn croesawu bywyd newydd. Diolch o galon i'r Parchedig Sara am y croeso ac am gefnogi ein dysgu yn yr ysgol.



# Bethesda

**Mary Jones**
maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

## Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen

**Arddangosfa GwyrddNi**
Mae Arddangosfa GwyrddNi wedi bod yn y Llyfrgell yn ddiweddar. Diolch i ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen am eu harddangosfeydd lliwgar.




**Dyma arddangosfa GwyrddNi gan ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen.**

**Gweithdy Braslunio**
Yn ystod Gwyliau'r Pasg, cynhaliwyd gweithdy creu llyfrau braslunio ar gyfer plant cynradd. Crewyd llyfrau braslunio lliwgar dros ben ac roedd pawb wedi mwynhau 'r profiad. Diolch i Lynwen am gynnal y gweithdy.

**Darlith Goffa Dafydd OrwiG**
Cofiwch am Ddarlith Goffa Dafydd Orwig fydd yn cael ei chynnal yn y llyfrgell ar yr 8fed o Fehefin am 7 y.h. Y siaradwr gwadd eleni fydd y Prifardd Myrddin ap Dafydd , a'i destun fydd 'Mynydd Williams Parry'.

**Cofiwch am y sesiynau canlynol:**
'Ji Babi Bach' – pob bore Llun 10:30-11:15. Sesiwn ganu, a stori ar gyfer babanod sydd heb gychwyn cropian (am ddim).
'Paned a Sgwrs' pob bore Iau -10:30 – 11:30. Cyfle i ddysgwyr ymarfer sgwrsio yn y Gymraeg. (am ddim).

**Sefydliad Y Merched Carneddi – Cyfarfod Mis Ebrill**
Cafwyd sawl ymddiheuriad, ac yn absenoldeb Nicola, ein Llywydd, camodd Gwyneth, ein is Lywydd, i mewn i gymryd y gadair. Diolch Gwyneth!

Darllenwyd y llythyr misol, a chafwyd nodyn o gofnodion mis Mawrth. Llongyfarchwyd Linda ar ennill y Clwb Cant. Nid oedd gennym siaradwr gwadd yn dod atom ymis yma, ac felly cafwyd cyfle i baratoi ar gyfer ymweliad SYM Dolwyddelan sydd yn dod atom am gêm o Bocia mis nesaf. Pob lwc i bawb.

**Paned a Sgwrs**
Yn ddiweddar daeth Gwyneth i'r sesiwn 'Paned a Sgwrs' i sôn am ei diddordeb mewn clytwaith a chwiltio. Mae'n ddiddordeb ganddi ers hanner can mlynedd. Llwyddodd i feistrioli'r Gymraeg mor dda fel ei bod wedi gallu cyflwyno'r cwbl drwy gyfrwng yr iaith, gan ddangos enghreifftiau gwych o'i gwaith i weddil y grŵp. Diolch Gwyneth.

**Dyma Gwyneth yn arddangos un o'i champweithiau i griw Paned a Sgwrs.**



## Eglwys Crist, Glanogwen

**Apel**
Mae cronfa'r Apel yn dal ymlaen, gan fod costau cynyddol yn dod i law oherwydd tywydd garw a.y.y.b. Diolch am unrhyw roddion,- gwerthfawrogir pob un yn fawr. Os oes rhywun yn awyddus i gyfrannu i'r Apel, neu'n wythnosol i'r eglwys, rhowch wybod i Lester, ein Trysorydd, ar lbath@phonecoop.coop er mwyn cael y manylion.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cynhesaf, fel arfer, at bawb o'n haelodau a'n hanwyliaid sydd yn wael, yn gwella ar ol llawdriniaeth, neu'n gaeth i'w cartrefi, gan ddymuno gwellhad a chysur i bawb sy'n dioddef mewn unrhyw fodd. Cofiwn yn arbennig am y rhai sy'n colli dod i'r eglwys i ymuno yn y gwasanaethau a'r cyfeillgarwch.

Cofiwch roi gwybodaeth i Sara os oes rhywun yn awyddus i gael ymweliad neu Gymun yn eu cartref.

**Plas Ogwen**
Ar y Sul olaf o'r mis, mae'r Parchedig Sara yn cynnal gwasanaeth Cymun i drigolion Plas Ogwen am 2 o'r gloch y prynhawn. Mae croeso i bawb sy'n dymuno bod yn bresennol.

**Gwasanaethau Glanogwen**
Mae newid bach yn nhrefn gwasanaethau mis Mai:
**Suliau 1af a'r 3ydd yn y mis**: - Cymun Bendigaid am 11am.
**Y TRI bore Mercher cyntaf ym mhob mis** am 10.30am - Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, a phaned a sgwrs i ddilyn.
Croeso cynnes, fel arfer, i bawb i'r holl wasanaethau.

**Raffl y Pasg**
Diolch i bawb a gyfrannodd ac a gefnogodd Raffl y Pasg. Mae'r enillwyr fel a ganlyn:
1. Mrs Glenys Morgan
2. Ms Alex Ball
3. Mrs Jean Cross
4. Mrs Sulwen Lloyd

Llongyfarchiadau!

**Cyngerdd Mawreddog**
Diolch yn fawr i Gôr Meibion y Penrhyn am gynnig cynnal cyngerdd er budd yr eglwys nos **Wener, Mehefin 26**. Edrychwn ymlaen yn fawr at y noson, - bydd tocynnau ar gael yn fuan iawn gan aelodau'r Côr ac o'r eglwys.

Hefyd, cadwch lygad allan am y digwyddiadau canlynol:
* stondin yr eglwys yn y Carnifal **Dydd Sadwrn, Mai 16** – cofiwch gefnogi!
*Nos Wener 22/5** – Gwyl Melangell yn yr eglwys am 7pm
***Nos Iau 11/6** – Sgwrs ar Ddatblygiad Eglwysi Anglicanaidd yn y Dyffryn – Dr Dafydd Roberts – 6.30pm. Paned i ddilyn.
**Manylion cyswllt**
Gellir cysylltu a'r Parchedig Sara Roberts ein offeiriad cynorthwyol ar 07967652981 os am drefnu bedydd neu angladd.

## Yr Eglwys Unedig

**Oedfaon**
Unwaith eto, derbyniasom fendith o gael arweiniad Y Parchedig Eric Jones a'n Gweinidog, Y Parchedig Nerys Griffiths, yn ein gwasanaethau diweddar – mae ein diolch yn fawr iddynt am eu pregethau grymus.

**Bore Coffi**
Cynhaliwyd Bore Coffi llwyddiannus yn y Festri Fach yn ystod mis Ebrill, pryd y gwnaethpwyd elw o £365.00 tuag at goffrau'r Capel. 'Rydym yn hynod o ddiolchgar i bawb a gefnogodd y digwyddiad. Mae angen llawer o arian i gynnal adeiladau'r Capel a'r Festri, - rhaid gwario rhai miloedd yn fuan i sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel i bawb ohonom.

**Banc Bwyd**
Diolch i bawb a gyfrannodd at y fasged fwyd yn ddiweddar – mae nifer go helaeth o fwydydd bellach wedi'u trosglwyddo i'r Banc Bwyd yng Nghaernarfon, ac mae'n amlwg bod y gofalwyr yno yn gwerthfawrogi ein hymdrechion.

**Llenwi'r Cwpan**
Hyfryd yw gweld cynifer ohonoch yn dod draw ar fore Iau i gael sgwrs a phaned - daliwch i ddod, gan fod croeso brwd yn eich disgwyl bob amser!

**Ymddeoliad**
Anfonwn ein dymuniadau gorau at Y Parchedig Anna Jane Evans ar achlysur ei hymddeoliad. Bu'n hynod o ffyddlon i ni yma yn Jerusalem, ac mae'n gadael bwlch mawr ar ei hôl.

**Cyhoeddiadau'r Sul**
Mai 10: Undebol yn Llanrug (10)
Mai 17: Y Gweinidog (10): Oedfa Cymorth Cristnogol
Mai 24: Mr Donald Pritchard (5)
Mai 31: Trefniant Mewnol (10)
Mehefin 7: Y Gweinidog (10)
Mehefin 14: Y Parchedig Mererid Mair (5)
Mehefin 21: Y Parchedig Gerallt Lloyd Evans (10)

## Gair neu ddau John Pritchard

# GWELD EU HUNAIN

Papur pum punt oedd o, os cofiaf yn iawn. Deg punt o bosib. 'At yr achos,' meddai'r cyfaill annwyl wrth ei roi i'r sawl a'i gwahoddodd i Ginio Blynyddol yr Henoed. Wn i ddim pa mor hen oedd o ar y pryd. A deud y gwir, roedd ei oed yn dipyn o gyfrinach. Ond doedd ganddo'r un bwriad i fynd i'r Cinio, er ei fod yn sicr dros oed pensiwn a blynyddoedd yn hŷn na llawer a fyddai yno! Mae'r atgof melys hwn am y gŵr bonheddig y cefais y fraint o'i nabod yng ngwlad Llŷn yn codi gwên o hyd. Yn ei dyb ei hun, doedd o ddim yn hen o gwbl.

Digon tebyg yw agwedd Trump, a gyhoeddodd yn ddiweddar ei fod 'o blaid yr henoed, er nad ydw i'n un ohonyn nhw'. Wrth gwrs ei fod yn un ohonyn nhw! Ond er tegwch, mae'n bosib mai sylw ysgafn oedd hwn ganddo. Onid ydi pawb ohonom yn hoffi meddwl ein bod yn iau nag ydym? A gellid yn rhwydd dderbyn bod Trump wedi deud hyn yn chwareus oni bai am ragrith llwyr ei feirniadaeth o'i ragflaenydd Joe Biden am fod yn rhy hen, a hwnnw ar ddechrau ei arlywyddiaeth bedwar mis yn iau nag oedd Trump ar ddechrau ei ail dymor yn y Tŷ Gwyn.

Wrth gwrs, mae'n bosib bod Trump wir yn credu ei fod dal yn ifanc, ac nad jôc oedd ei sylw o gwbl. Ac yn sicr, nid jocian oedd o'n ddiweddar wrth fygwth pobl Iran â'r geiriau, 'No more Mr Nice Guy!' *Mr Nice Guy? No more?* Mae'n amlwg nad yw'r Arlywydd (mwy na'r un ohonom) yn ei weld ei hun fel y gwêl eraill o. O bosib ei fod yn 'Mr Nice Guy' yng ngolwg ei ddilynwyr cibddall. Ond dyna'r peth dwytha y byddai llawer mwy – yn ei wlad ei hun ac ar draws y byd – yn ei ddeud amdano.

Nid ein bod ni'n gwbl annhebyg i Trump! Yn aml iawn, mae'r olwg sydd gan eraill arnom yn wahanol i'r olwg sydd gennym ni ein hunain. Bydd rhai'n ddigon caredig i ddeud pethau clên amdanom, a ninnau'n gwybod yn iawn ein bod ymhell o fod y bobl y maen nhw'n eu disgrifio. Bydd eraill yn mynnu cyfeirio at ein beiau, a ninnau'n ddistaw bach yn teimlo nad ydi eu beirniadaeth – bob amser, o leiaf – yn gwbl deg. Yn ein barn ein hunain, dydan ni rywsut ddim cystal â'r ganmoliaeth orau ond ddim cynddrwg â'r feirniadaeth waethaf chwaith.

Ond sut bynnag y gwêl eraill ni, a sut bynnag y gwelwn ni ein hunain, pwysicach na dim ydi sut y gwêl Duw ni. Duw, wedi'r cyfan, a wêl orau; Duw a wêl y cyfan; a Duw yn unig a wêl yn berffaith. Deallodd y Salmydd hynny i'r dim: 'Arglwydd,' meddai, 'yr wyt wedi fy chwilio a'm hadnabod ... yr wyt wedi deall fy meddwl o bell; yr wyt wedi mesur fy ngherdded a'm gorffwys, ac yr wyt yn gyfarwydd â'm holl ffyrdd' (Salm 139:1–3). Nid yn aneglur y gwêl Duw. Nid rhan o'r darlun a wêl. Ac nid yn unig yr hyn y dymunwn ni i eraill ei weld a wêl. Mae'n gweld y cyfan, yn cynnwys y beiau y ceisiwn eu cuddio ac y byddai'n well gennym pe na fyddai neb yn eu gweld. Ond rhyfeddod pethau i'r Salmydd ydi bod y wybodaeth hon, sydd ar un wedd yn ddychrynllyd, yn gysur mawr. Y Duw sy'n gweld y cyfan sydd hefyd yn estyn ei drugaredd a'i faddeuant i bawb.


C.L. JONES
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu
Timber & Builders' Merchants
Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel - Llandudno
C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau Llangefni a Llanrwst.


Bethesda 01248 600 045
bethesda@cljonesltd.co.uk

# Nyth y Gân

Daw'r cyfraniad y mis hwn oddi wrth Gwilym Tudur Williams, Rachub, efo cerdd sy'n deillio o'i adnabyddiaeth o fywyd llwynogod. Wedi ei fagu ym Mryn Eithin yn Llan, mae ganddo ddiddordeb arbennig ym myd natur, ac yn bysgotwr eogiaid o fri.

## Y Bryniau Melynion

Dan feini'r Bryniau Melynion
Yng nghesail y Mynydd Du
Swatiai torllwyth o gnafon
Mewn gwely o wlân a hen blu.

Eu boliau fel peli bach crynion
Ar ôl gwledda ar ieir Gerlan Ffarm
Ac ambell i oen o Waun Gwiail
Wedi'i flingo a'i fwyta bob darn.

Gwnewch fawr o'ch seibiant, hen gnafon,
Mewn cwsg a heddwch di-boen;
Nid hawdd yw bywyd llwynog
Yn ardal y ddafad a'r oen.

Anfonwch eich cerddi at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG.
ieuanwyn01@gmail.com

**Y Bryniau Melynion ar y chwith ym mhen pellaf Cwm Pen Llafar**



# CD Dafydd Goch




Mae Alun Davies o'r Gerlan newydd orffen recordio CD newydd sbon - CD Dafydd Goch.

'Niwl' ydi enw'r CD, yn ogystal â theitl un o'r traciau. Mae pob cân yn un wreiddiol ac wedi eu cyfansoddi gan Alun - heblaw am un "I Lawr y Lôn" sydd wedi ei chyfansoddi gan Gwynfor Dafydd.

Mae nifer o gerddorion ar y CD, yn cynnwys Alun ar y gitâr/mandolin/bâs/ llais, Gareth Hughes ar y drymiau, Gwynfor Dafydd yn canu rhai caneuon, Dafydd Les Roberts ar y piano, Jaci Cullimore yn llais cefndir ar ddwy gân, Euron "Jôs" Jones yn chwarae Gitâr Pedal Ddur ar ddau drac, a Barry "Archie" Jones yn chwarae bâs ar rai traciau. Mae cerddorion eraill wedi cyfrannu rhannau hefyd megis Sion (Maffia) Jones a Dylan Baines.

Ar y CD hefyd gellir clywed Hogia'r Bonc, Côr y Penrhyn, Catrin Williams ac aelodau teulu Alun.

Mae'r caneuon yn amrywiol iawn gyda sawl gwahanol genre, o faledi i Roc a Rôl.

Mae'r CD ar gael gan Alun neu gellir prynu'r albwm neu draciau unigol ar wefannau megis "Spotify" ac "Apple Music"

https://open.spotify.com album/3mSFPudQSK9t9F aj55DLJ6

Llongyfarchiadau mawr i ti Alun ac i bawb arall sydd wedi cyfrannu at y CD newydd. 'Da ni'n edrych ymlaen yn fawr iawn i'w chlywed – 'dw i'n siwr y bydd yn boblogaidd iawn. Mynnwch eich copi!



Mr. Jones
**GLANHAWR SIMDDA**

Ysgubo Traddodiadol | Ysgubo Cylchdro

CCTV | Aelod o NACS

Yswiriant Cyfredol

**07951 108121**

**mr.joneschimneysweep@gmail.com**

THE NATIONAL ASSOCIATION OF CHIMNEY SWEEPS
NACS
MEMBER




**post@llaisogwan.com**

# Y Gerlan

**Caren Brown**
07789 916166
carenelaine@hotmail.com

**Pen-blwydd Hapus**
Penblwydd hapus iawn i Einir Williams, Bryn Caseg, sydd wedi bod yn dathlu pen-blwydd arbennig. Mae hi a Chris wedi nodi'r garreg filltir yma trwy fynd ar daith i Tsieina. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r profiad anhygoel yma. Croeso i'r Clwb 50!

**Pasio prawf gyrru**
Llongyfarchiadau i Mali Hughes, Ciltwllan, ar basio ei phrawf gyrru am y tro cyntaf. Da iawn chdi Mali!

**Cyfres Newydd ar S4C**
Os ydych chi wedi bod yn gwylio S4C ar Nos Fercher yn ddiweddar, mae'n bosib eich bod wedi gweld wyneb cyfarwydd o Gwernydd ar y sgrin. Mae Lisa Jên yn cyflwyno rhaglen Y Wal. Mae'r gyfres o 4 rhaglen yn teithio i gymunedau er mwyn darganfod yr effaith mae gwahaniad yn ei gael ar bobl sydd yn byw yno. Er mwyn ffilmio'r gyfres, mae Lisa wedi teithio i'r ffin rhwng Rwsia a'r Ffindir, Brasil, Fietnam, Cambodia a Moroco. Os nad ydych chi wedi cael cyfle i weld y gyfres eto, mae modd ei gwylio ar Clic – mae'n hynod ddifyr.




## Caban Gerlan

**Parti Pen-blwydd**
Daeth criw o ffrindiau at ei gilydd i'r Caban i ddathlu pen-blwydd Noah, Tomi ac Iwan yn 6 oed. Y syniad oedd cael parti adeiladu "dens" efo cardfwrdd. 'Roedd y rhieni wedi bod wrthi'n casglu pob math o focsys. Cafodd pawb lot o sbort yn adeiladu a bod yn greadigol ac 'roedd y Caban yn lle delfrydol efo digon o le. Cofiwch y gallwch logi'r Caban ar gyfer unrhyw achlysur trwy gysylltu efo Caren ar 07789916166.



**Caffi Trwsio**
Diolch i bawb ddaeth i Gaffi Trwsio'r Caban diwedd Ebrill. Bydd y Caffi Trwsio nesaf dydd Sul Mai 31 (11-1pm). Galwch draw am banad!

**Grŵp Gwnïo**
Bydd y grŵp gwnïo nesaf ymlaen nos lun y 25ain o Fai (6.30-8.30). Os oes gennych chi ddiddordeb mewn gwnïo o unrhyw fath neu'n meddwl dechrau gwnïo yna dewch draw am baned a sgwrs. Mae'n ofod cyfeillgar i gael syniadau, dysgu sgiliau newydd a chael chydig o help ac ysbrydoliaeth os oes angen. Os 'dach chi awydd rhoi tro ar wnïo – ac nad oes peiriant gennych - cofiwch fod modd benthyg un o Lyfrgell Petha Pesda trwy archebu ar www.pethaupesda.myturn.com/library/

**Grŵp Gwau**
Os ydych chi'n brofiadol neu awydd trio gwau am y tro cyntaf, dewch draw am baned a sgwrs ac fe fydd rhywun yn hapus i'ch dysgu. Mae 2 grŵp i fynd nes gwyliau'r haf:

- Nos Lun Mai 11eg (6.30-8.30)
- Nos Lun Mehefin 9fed (6.30-8.30)

**Hyfforddiant Gosod Pileri Llechi**
Ganol Ebrill, trefnodd Y Caban benwythnos o hyfforddiant gosod pileri / crawiau llechi. 'Roedd y cwrs yn llawn a phawb wedi dysgu llawer a mwynhau'n arw. Dywedodd un o'r mynychwyr "Diolch am ddiwrnod arbennig yn dysgu sut i osod pileri. Diolch mawr i gwmni Kehoe Countryside am hyfforddiant gwych ac i Gaban Gerlan am drefnu". Os ewch chi am dro o Abercaseg / Braichmelyn i fyny llwybr Pileri neu'r Wern am Gerlan, fe welwch y gwaith arbennig a wnaed i adfer y ffens llechi yno. Dyma rai o'r criw yn brysur wrth eu gwaith.



Mae'r gwaith yma yn rhan o gynllun LleChi Llenni: rhaglen buddsoddi gymunedol a ariennir gan y Gronfa Treftadaeth y Loteri a arweinir gan Gyngor Gwynedd. Mae'n rhan o gyfres o fuddsoddiadau yn deillio o ddynodiad Safle Treftadaeth y Bydd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru.

1969
M.HUGHES
A'I FAB
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn,
Bethesda ☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
mhughesandson@hotmail.com

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.




## Rhiwlas

**Annes Glynn,** Bwthyn Cefn Braich,
Rhiwlas LL57 4HB
annes.glynn@gmail.com
(01248) 351015

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad i Rhys ac Angharad Owen, Aralia, yn dilyn marwolaeth tad Rhys, y Parch. Dafydd H. Owen, Caerdydd, ddechrau Ebrill. Yn wreiddiol o Lanrug, bu'n weinidog yn Sir Gaerfyrddin a Môn cyn iddo ef a'i wraig Brenda symud i Goleg y Bala yn 1967 ar ôl iddo gael ei benodi'n Gaplan Ieuenctid gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Symudodd ymhen amser i Lerpwl ac yna i Lundain lle y dirwynodd ei weinidogaeth i ben.

Profodd teulu arall yn y pentref golled hefyd yn ystod y mis diwethaf, ac estynnwn ein cydymdeimlad i anwyliaid y diweddar Eric Neil Jones, Hen Sgubor. Cynhaliwyd ei angladd ar Ebrill 20 yn Eglwys Sant Cedol, Pentir.

**Cwis**

Mae gan Gyfeillion Rhiwlas raglen ddifyr o ddigwyddiadau wedi eu trefnu ar gyfer eleni eto a'r un nesaf fydd Cwis sydd i'w gynnal ar nos Sadwrn, Mai 30, yn y Neuadd. Bydd yn dechrau am 6.30 o'r gloch ac mae croeso cynnes i bawb.

**Merched y Wawr**

Cafwyd cyfarfod difyr iawn brynhawn Mawrth, Ebrill 14, pan ddaeth Eirwen Jones, Caernarfon atom i sgwrsio am ei gwaith addurno cacennau. Mae Eirwen yn gyn-lywydd Pwyllgor Celf Arfon ac wedi ennill sawl gwobr am ei gwaith cain yn y Sioe Frenhinol dros y blynyddoedd. Roedd yr aelodau wedi dotio at ei dawn i drin y siwgr mor gelfydd – ac at ei hamynedd! Dywedodd fod ei diddordeb wedi dechrau pan ofynnodd ei mab Alun iddi wneud cacen briodas iddo. Roedd hynny ddeugain mlynedd yn ôl a dangosodd ei halbwm lluniau o'r holl gacennau – priodas, pen-blwydd, a sawl achlysur arbennig arall – y mae hi wedi eu coginio a'u haddurno yn ystod y cyfnod hwnnw.



Er nad yw hi'n gwneud cymaint erbyn hyn mae'r diddordeb yn parhau er hynny ac yn brofiad therapiwtig meddai gan fod yn rhaid canolbwyntio mor ofalus, gan beri i unrhyw bryderon ddiflannu wrth iddi ei wneud.

Roedd Eirwen wedi dod â ffrind efo hi, Olwen Williams o'r Groeslon, ac fel mae'n digwydd hi enillodd y wobr raffl y tro yma! Mari oedd yn gyfrifol am y baned a fwynhawyd efo dewis o gacennau blasus. Diolch, Mari.

# YSGOL RHIWLAS

**Gwersi Almaeneg**

Mae plant Cyfnod Allweddol 2 wedi cychwyn gwersi Almaeneg yn rhithiol yn ddiweddar. Bydd y dysgwyr yn ddigon ffodus i gael cymryd rhan yn y sesiynau wythnosol yma er mwyn eu cyflwyno nhw i ddysgu iaith dramor - sgil werthfawr dros ben. Digon difyr ydy'r gwersi hefyd, gyda phawb yn llawn brwdfrydedd ar fore Gwener. Rydym yn edrych ymlaen at weddill y sesiynau.

**Prynhawniau Agored**

Ym mis Mehefin, byddwn yn agor ein drysau unwaith eto i groesawu'r plant fydd yn ymuno â ni yn Ysgol Rhiwlas ym mis Medi. Bydd cyfle i'r plant ddod i'r ysgol gyda'u rhieni, edrych o gwmpas a dod i adnabod y staff a'r plant. Byddwn mewn cysylltiad gyda'r teuluoedd yma dros yr wythnosau nesaf felly os hoffech chi gael mwy o wybodaeth, peidiwch ag oedi i gysylltu gyda ni yn yr ysgol.

**Nofio**

Mae'n amser i flynyddoedd 1, 2 a 3 fynd i nofio ym mhwll nofio Bangor. Aeth y dysgwyr hŷn am eu gwersi nofio cyn y Nadolig ac mae gweddill y plant - yn enwedig blwyddyn 1 - yn gyffrous dros ben i gael eu gwersi nhw'r tymor yma. Mae rhywbeth yn dweud wrthym y bydd ein bws mini yn brysur iawn dros y misoedd nesaf!



**Themâu**

Ers y Pasg, mae Cyfnod Allweddol 2 wedi dechrau dysgu am eu hardal leol fel rhan o'u thema 'Y Byd o'n Cwmpas'. Mi gychwynnon nhw wrth rannu syniadau ynghylch yr hyn hoffen nhw ei ddysgu dros yr wythnosau nesaf, gyda llawer iawn yn cynnig syniadau gwych. Mae'r dysgwyr wedi bod yn dysgu am hanes Moelyci a Maes Meddygon ers dychwelyd ar ôl y gwyliau a hefyd wedi dechrau ar ein gwaith tyfu yn y *polytunnel*. Os welwch chi ni o gwmpas y pentref, cofiwch godi llaw!

Mae'r Cyfnod Sylfaen wrthi'n dysgu am Drychfilod a hyd yma wedi bod yn brysur yn chwilio amdanynt yn ein gwarchodfa hardd yng nghefn yr ysgol, dysgu am gylch bywyd a dysgu sut i edrych ar ôl ein byd natur. Rydym yn bwriadu ymweld â'r gwenyn a gweld pa mor brysur maent wedi bod yn gwneud mêl yn ddiweddar. Rydym wrth ein boddau gyda'r amser yma o'r flwyddyn er mwyn bod allan yn yr awyr agored! Beth well?



**Y gôg**

Fel y gŵyr y pentrefwyr i gyd mae Rhiwlas yn ffodus iawn o fod yn lle y gallwch chi ddal i glywed y gôg yn canu – mae ei chân wedi diflannu o sawl ardal erbyn hyn a dydi hi ddim yn beth dieithr i ddod ar draws pobl wedi teithio draw yma yn unswydd er mwyn cael ei chlywed.

Fel rheol fe fydd yn dechrau arni yma tua chanol Ebrill ac, yn wir i chi, wrth imi baratoi'r golofn y mis yma ar Ebrill 25, dwi'n ei chlywed hi'n canu nerth ei phen! - o gyfeiriad Cae Mawr ar hyn o bryd, ond fel rheol bydd yn dod yn nes hefyd erbyn diwedd prynhawn - i Ben Ffridd. Mae hi mor braf ei chlywed ar ôl y tywydd anwadal diweddar:

Fe ddaeth i gadw cwmni i'r clychau fel erioed
A dotiais at ei nodau yng ngwyrddni llawn y coed,
O gylch Cae Mawr ac ym Mhen Ffridd
Mae sawr y gwanwyn ar y pridd.

## Capel Shiloh Newydd Rhiwlas

Dyma fanylion y gwasanaethau a gynhelir ar y Suliau canlynol yn y Neuadd yn ystod yr wythnosau nesaf:

**Mehefin 7:** Parch Aled Davies
**Mehefin 14:** Mr Huw Pritchard
**Mehefin 21:** Parch Ddr Ian Morris
**Mehefin 28:** Ellie Jones
Croeso cynnes i bawb.


**Elwyn Jones & Co**

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

**- Cyfreithwyr -**

123 Stryd Fawr Bangor Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*

Llangefni (01248) 723106 | Porthaethwy (01248) 719517 | Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01286) 672437 | Pwllheli (01758) 703000


# Colofn Chwedl a Choel: Rhifyn 13
# Gan Howard Huws

Y mis hwn, dewch i ni sôn am rai arferion trobwyntiau pwysig yny golofn hon: canlyn, priodi, geni a chladdu. Arferion a oedd o gymorth i bobl ddygymod a newidiadau mawrion yn eu hanes, a'u llywio trwy gyfnodau argyfyngus neu anodd yn ôl at fywyd beunyddiol arferol.

Bu i William Williams ddisgrifio arferion pobl Llandygái a Llanllechid tua'r flwyddyn 1800. Am ganlyn, mae'n dweud y byddai llanc mentrus yn ceisio gair efo merch mewn ffair neu achlysur cyhoeddus arall, ac yn ei thretio â gwin a chacennau. Gallai llanc swil ofyn i gyfaill iddo ymholi â'r ferch ar ei ran, ond yr hogyn gwrol oedd fwyaf tebyg o lwyddo.

Y cam nesaf fyddai trefnu i ymweld yn ddirgel â chartref y ferch ryw nos Sadwrn, doed a ddelo. Pan gai gyfle, byddai'r ferch yn ei adael i mewn i'r tŷ, a byddai'r ddau yn sgwrsio wrth y tân. Yna, os oedd y rhagolygon am berthynas yn dda, caent hyd i ba wely bynnag oedd yn wag, tynnu eu hesgidiau, a gorwedd yno yn eu dillad tan flanced neu ddwy, yn dal i siarad tan y wawr, a chyfle'r llanc i ddianc oddi yno. Dim ond siarad: pe bai'r hogyn yn mentro'n rhy bell, cai swadan gan y ferch nes gwaedu'i drwyn, ei hel oddi yno, a'i enw'n faw yn y gymdogaeth wedi hynny.

Gallai carwriaeth o'r fath barhau am flynyddoedd cyn priodas. Weithiau byddai'r ferch yn beichiogi cyn hynny, ond nid cyn i'w chariad fynd ar ei lw cyhoeddus y byddai hi'n wraig iddo. Yn y briodas byddai pawb - 200 neu 300 o bobl, yn aml - yn cyfrannu swllt tuag at y ddiod, ac âi'r pres i helpu'r pâr ifanc i brynu dillad gwely ac anghenion eraill.

Adeg geni'r baban, deuai pawb ynghyd eto i ddymuno'n dda i'r fam a'r plentyn, a rhoi tua swllt i'r fam, chwecheiniog i'r fydwraig a chwecheiniog i'r gogyddes oedd yn darparu'r bwyd, yn ôl y medrent ei fforddio.

Felly Williams: ac yn nes o lawer at ein hamser ni, un arfer priodas neilltuol a glywais amdano yn yr ardal hon oedd nad oedd y cwpwl, y noson cyn y briodas, i weld ei gilydd o hanner nos tan adeg y briodas ei hun y diwrnod canlynol.

Nid oedd disgwyl baban heb ei beryglon. Rhaid oedd ei ddiogelu ymlaen llaw trwy beidio â "rhagweld ffawd", a chymryd yn ganiataol y byddai popeth yn iawn. Felly nid oedd dod â choets baban, na thaclau eraill ar ei gyfer, i'r tŷ cyn y geni: cedwid nhw yn rhywle arall. Arferid gwneud y crud o goed cyll. Wedi'r geni, ni thorrid ewinedd na gwallt y bychan, rhag cwtio ei einioes, debyg: ac am yr un rheswm, ni ddangosid iddo ei lun mewn drych. Ni ddywedodd y rhai a holais yma am ba hyd y gwaherddid y drych a'r siswrn, ond clywais ym Mangor mai am flwyddyn wedi'r geni y gwnaed hynny. Arferid "cwtio" babanod 6 wythnos oed, sef newid eu dillad o goban laes, wen



i ddillad mwy cwta a chyfleus ar gyfer gofalu amdanynt.

Roedd llawer rhagor o arferion wedi crynhoi o gwmpas marwolaeth, gan fod hwnnw'n ddigwyddiad mwy arswydus ym mhob ystyr. Byddai'n rhaid "gweini" corff, sef ei baratoi at ei gladdu, ac roedd rhai gwragedd (fel mam Dafydd Gwilym, Pant) yn arbenigo yn hyn, ac yn cael eu galw gan gymdogion i wneud y gwaith. Nid oedd y gwragedd hyn yn derbyn tâl am hynny.

Awn yn ôl i tua 1800 eto, efo William Williams yn disgrifio arfer yr oes honno:

"... yn ystod y noson cyn y dydd hwnnw [y cynhebrwng] daw'r cymdogion i gyd at ei gilydd i'r tŷ lle bo'r corff, yr hwn a alwant yn Dŷ Corff ... Yna gosodir yr arch ... ar stoliau mewn rhan agored o'r tŷ a'i gorchuddio â lliain du, neu os oedd yr ymadawedig yn ddi-briod, â chynfas wen lân, gyda thair cannwyll yn llosgi arni. O ddod i mewn, mae pob un yn syrthio ar ei liniau yn ddefosiynol gerbron y corff ac yn adrodd Gweddi'r Arglwydd neu unrhyw weddi arall o'i ddewis wrtho'i hun. Ar ôl hyn, os yw'n ysmygwr, cynigir cetyn a thybaco iddo. Gelwir y cyfarfod yn 'Wylnos' ac mewn rhai mannau 'Pydreua' ... Pan yw'r cynulliad yn llawn, mae clerc y plwyf yn darllen gwasanaeth cyffredin Claddu'r Meirw, ar ddiwedd pa un cenir salmau, emynau a chaneuon duwiol eraill; a chan fod Methodistiaeth wedi dod mor gyffredinol, mae rhywun yn sefyll ac yn traddodi araith ar y pwnc prudd, ac yna mae'r cynulliad yn ymadael fesul dipyn."

Hen arfer Catholig Rhufeinig oedd y "Pydreua", neu'r "padereuo": cyfarfod yn y tŷ galar i gydadrodd y Pater Noster a'r Ave Maria efo llinyn paderau er budd enaid yr ymadawedig. Aeth hynny'n angof erbyn oes Williams Llandygái, a'r unig beth sy'n weddill heddiw ydi'r gair "paldaruo", i olygu "siarad lol."

Os gwyddoch chi am unrhyw arferion neu draddodiadau sy'n ymwneud â throbwyntiau neu ddigwyddiadau pwysig fel canlyn, priodi, geni a chladdu, rhowch wybod i Howard! Byddai'n yn falch iawn o glywed gennych. Gallwch gysylltu gyda Howard trwy anfon neges ato yn cyfarchiad@yahoo.co.uk neu ei ffonio ar 07748 495537.

## Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid,
Bangor, LL57 3LE (07887624459)
henbarc13@gmail.com

## Carmel, Llanllechid

**Te Bach**
Cawsom dywydd braf iawn i gynnal ein Te Bach ym mis Ebrill. Daeth criw da iawn i'r Ysgoldy ac roedd hi'n braf clywed lleisiau pobl yn sgwrsio ac yn chwerthin o gwmpas y byrddau. Roeddem ni'n tynnu raffl arbennig gyda gwobr o flanced hardd iawn a gafodd ei gwau gan Mrs Glenda Ellis Hendyrpeg. Diolch i bawb am gefnogi ac i bawb am roi help llaw wrth ddarparu'r Te Bach. Cyfanswm yr arian a gasglwyd oedd £401.00. Mae'r chwiorydd yn casglu arian ar hyn o bryd tuag at beintio nenfwd y capel. Rydym ni'n gobeithio y bydd hynny'n digwydd yn ystod misoedd yr haf.

**Plant ac Ieuenctid**
Mae'r plant a'r ieuenctid yn ymarfer 'rwan ar gyfer gwasanaeth yn y capel yn ystod mis Mai. Bydd y casgliad yn mynd at Gymorth Cristnogol.

**Te Bach** – Mis Mai, Dydd Llun 18fed

**Oedfaon 5 o'r gloch**
Mai 17: Parchg Iwan Ll. Jones
Mai 25: Gwasanaeth yng ngofal Plant ac Ieuenctid yr Ysgol Sul a Chlwb Dwylo Prysur
Mai 31: Parchg Dafydd Coetmor Williams
Mehefin 7: Parchg John Pritchard
Mehefin 14: Gwasanaeth
**Ysgol Sul:** 10:30
**Clwb Dwylo Prysur:** 6:30 Nos Wener









## Cylch Meithrin Cefnfaes


Bu wythnos ddiwedd Ebrill yn un brysur iawn i blant y cylch gan eu bod yn gwneud gwahanol weithgareddau i godi arian er mwyn cael adnoddau newydd. Dyma nhw yn cael pum munud ar daith gerdded . Bydd mwy o luniau y mis nesaf.

JOHN ROBERTS
Paentiwr
Papurwr
Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig, Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531 | 01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

Gwyl Melangell
Eglwys
Glanogwen Church
LL57 3NL
22/5/26
7pm

Chwedlau,
Cherddoriaeth,
Barddoniaeth...
dathlu'r sanctaidd
yn y cyffredin
ELAINE HUGHES CLAIRE MACE
Guest Speaker:
Trustee of St Melangell Shrine
DIOSG
Karma
Lleisiau'r Mynydd
Tocynnau : £10
holl elw
Apêl Glanogwen & MAP

Dathlu Eglwys Glanogwen, Bethesda
Eleni mae Eglwys Glanogwen yn 170 oed.
Fel rhan o'r dathliadu estynwn wahoddiad i:
sgwrs am hanes
Eglwysi Anglicanaidd Dyffryn Ogwen
efo
Dr Dafydd Roberts
11:06.26 @ 6.30 pm
yn yr Eglwys
panad & cacen i ddilyn


*Oes diddordeb mewn hysbysebu yn Llais Ogwen?*

# YSGOL LLANLLECHID

### Celf a Chynaliadwyedd gyda Phartneriaeth Ogwen

Mwynhaodd **Blwyddyn 5** brosiect creadigol a chyffrous wrth gydweithio â **Phartneriaeth Ogwen** ar gynllun celf unigryw. Fel rhan o'r fenter, cafodd pob disgybl gyfle i ddylunio ac addurno eu poteli dŵr metel eu hunain. Roedd y canlyniadau'n drawiadol, gyda phob un dyluniad yn hollol unigryw i'r unigolyn. Roedd y prosiect nid yn unig yn gyfle i ddatblygu sgiliau celf, ond hefyd yn ffordd ymarferol o feddwl am yr amgylchedd a lleihau plastig.

### PC Williams a Diogelwch Ar-lein

Estynnwyd croeso cynnes i PC Williams i'r ysgol yn ddiweddar i gynnal sesiwn bwysig gyda Blwyddyn 6. Canolbwyntiodd yr ymweliad ar ddiogelwch ar-lein, gan roi cyfle i'r disgyblion drafod sut i gadw eu hunain yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol. Dysgodd y plant lawer o wersi gwerthfawr a fydd yn eu gwasanaethu'n dda yn y dyfodol.




### Diolch yn fawr i Glanhau Simdda DWT

Hoffem estyn diolch cywir a chynnes iawn i **Glanhau Simdda DWT** am eu haelioni diweddar wrth noddi ein cit chwaraeon newydd. Mae'r plant yn edrych yn arbennig o smart ac yn barod am bob her yn eu gwisgoedd newydd sbon, ac mae'n braf gweld yr ymdeimlad o falchder y mae hyn wedi ei roi iddynt. Heb gefnogaeth busnesau lleol caredig fel hyn, ni fyddai modd i ni ddarparu offer o'r safon uchel yma i'n chwaraewyr ifanc. Diolch i DWT am fuddsoddi yn ein tîm ac am helpu'r plant i gamu allan i'r cae gan deimlo fel sêr!

### Blwyddyn 5 yn Blasu Bywyd y Dyffryn

Cafodd disgyblion Blwyddyn 5 ddiwrnod arbennig iawn yn Ysgol Dyffryn Ogwen yn ddiweddar fel rhan o'u gwaith pontio. Cawsant groeso cynnes dros ben gan y staff a'r disgyblion yno. Mwynhaodd y plant y gweithgareddau amrywiol yn fawr, ac roedd yn gyfle gwych iddynt gael blas ar fywyd mewn ysgol uwchradd cyn symud ymlaen y flwyddyn nesaf.

### Her y Marathon: Blwyddyn 6 yn Arwain y Ffordd

Ar y 24ain o Ebrill, cafwyd diwrnod llawn egni wrth i Flwyddyn 6 drefnu a chynnal diwrnod Marathon arbennig i'r ysgol gyfan. Daeth yr holl ddisgyblion at ei gilydd i redeg pellter cyfunol o 26.2 milltir, gan ddangos dycnwch a brwdfrydedd rhyfeddol. Cafodd y plant eu hysbrydoli i gynnal y digwyddiad gan Mr James Roberts, sy'n rhiant, yn llywodraethwr, ac yn aelod ffyddlon o Gyfeillion Ysgol Llanllechid, fydd yn rhedeg Marathon Llundain ar y 26.04.2026. Roedd yn ffordd wych o hybu iechyd a lles tra'n dod â'r ysgol gyfan ynghyd.

### Darllen a Dychymyg yn y Llyfrgell Newydd

Braf oedd gweld y llyfrgell newydd yn cael ei hagor yn swyddogol yn ddiweddar. Cafodd y gofod ei weddnewid yn llwyr, ac mae'r clwb stori wir wedi mwynhau cynnal eu sesiynau yno! Mae'r disgyblion a'r staff yn mwynhau yn fawr y cyfle i ymgynnull yno i rannu straeon ac I ddarllen, ac mae yno awyrgylch braf a hamddenol wrth i bawb fanteisio ar yr adnoddau gwerthfawr hyn.



### Cyffro'r Dosbarthiadau Newydd

Symudodd y Dosbarth Meithrin a Blwyddyn 1 i'w dosbarthiadau newydd sbon y mis hwn. Cafodd y plant gryn gyffro wrth archwilio'r ystafelloedd modern, ac roedd hi'n bleser gweld pa mor gyflym y maent wedi ymgartrefu. Mae yr amgylchedd lliwgar a chyffrous hwn wedi ysbrydoli llawer o chwarae a dysgu brwd dros y wythnosau diwethaf.



Ogwen
Adferiad Corfforol

Proffesiynol, diogel a chyfrinachol

LLEDDFU POEN
Cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau, a thensiwn cur pen

Eli Lichtenstein
07743373895 | info@ogwenphysical.co.uk | ogwenphysical.co.uk
Bethesda RFC Dol Dafydd, Bethesda, Bangor LL57 3NE

# Llandygái

**Iona Wyn Jones,** 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280)
ionawynbangor@gmail.com

## Eglwys Sant Tegai, Llandygai

**Pasg St Tegai**
Croesawyd cynulleidfaoedd unedig St Tegai a St Cross i ddathliad yr Atgyfodiad ar fore Sul y Pasg gan glychau hyfryd yr eglwys. Diolch i'n clochyddion am y moliant. Parhaodd y llawenydd mewn gwasanaeth bendithiol o dan arweiniad y Parch John Bleazard gyda Keith Lacey wrth yr organ. Unwaith eto cafodd pob aelod o'r gynulleidfa ŵy Pasg wrth iddynt ymadael. Addurnwyd yr eglwys ar gyfer y Pasg gan wirfoddolwyr ffyddlon a diolchwn iddynt am eu gwaith. Roedd arogl y blodau yn llenwi'r adeilad. Fel y gwyddoch, mae'r eglwys ar agor yn ddyddiol tan yr Hydref, felly mae cyfle i chi ymweld, darllen a dysgu am hanes yr eglwys unrhyw dro.

**Cynrychiolwyr Newydd i'r Eglwys**
Dathlwyd Sul Cyntaf y Pasg mewn gwasanaeth o Foreol Weddi ar Ebrill 12fed a dilynwyd yr addoliad gan gyfarfod cynulleidfaol i drafod y ffordd ymlaen yn dilyn ymddiswyddiad Edmond Douglas Pennant o'i gyfrifoldebau fel Warden y Bobl, Cynrychiolydd St Tegai ar y gyngor eglwysi Bro Ogwen a Thrysorydd yr Eglwys. Gyda llawenydd cawn gyhoeddi fod rhai o'r gynulleidfa yn fodlon ymgymryd â rhai cyfrifoldebau ac wedi eu hethol yn unfrydol: Rachel Tombs i swydd Warden y Bobl, Jan Roberts fel cynrychiolydd St Tegai ar gyngor Bro Ogwen a Myfanwy Carpenter fel Llywodraethwr Eglwysig i Ysgol Llandygai. Diolch iddynt am eu parodrwydd i gyfrannu. Ni ddaeth gwirfoddolwr ymlaen ar gyfer swydd y trysorydd felly mae Edmond wedi cytuno i barhau dros dro.

**Pen-blwyddi arbennig**
Dathlodd Hazel Jones ben-blwydd arbennig ar Ebrill 17eg ac i nodi'r achlysur a chydnabod ei ffyddlondeb i'r eglwys dros y blynyddoedd canodd y clochyddion chwarter caniad ar y noson blaenorol. Gobeithio eich bod wedi mwynhau eich penwythnos gyda'r teulu Hazel! Rhaid peidio anghofio eraill sydd wedi dathlu pen-blwydd yr un diwrnod er ddim yn ben-blwyddi arbennig, sef Pauline Edwards, Muriel Owen ac Avril Williams. Pen-blwydd hapus iddynt hwythau!

**Ymddeoliad**
Bydd ein Ficer ac Arweinydd Bro Ogwen, y Parch Ddr Gareth Lloyd yn ymddeol o'r weinidogaeth ar Sul y Pentecost, Mai 24ain a chynhelir gwasanaeth ffarwel iddo yn Eglwys St Tegai am 11.00. Mae trefniadau'r gwasanaeth yn dal ar y gweill felly bydd manylion ar gael ym mhorth pob eglwys ym Mro Ogwen erbyn canol mis Mai. Edrychwch allan am y posteri.

**Rhodd St Tegai 2026**
Cynhelir diwrnod ein nawddsant St Tegai ar Fehefin 5ed eto eleni. Bydd y dyddiad a'r mis yn gyfle i aelodau'r eglwys, ac i ffrindiau sydd â chysylltiadau personol â phentref Llandygai, gynnig rhodd ariannol i ddathlu bywyd a gwaith y sant ar ddydd ei ŵyl. Derbynnir yn ddiolchgar unrhyw roddion drwy siec yn daladwy i Eglwys Llandegai Church, neu arian parod mewn amlenni trwy'r blwch postio i'r swyddogion; Ann E. Williams (Warden y Ficer), Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor, Gwynedd. LL57 3EF (Ffôn 01248 600719); Nerys Jones (Ysgrifennydd yr Eglwys a Sacristan), 2 Bryn, Llandygai, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD (Ffôn 01248 354369) neu Edmond Douglas Pennant (Trysorydd Dros Dro), Lodge Drws Melyn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd LL57 4HU. Os gwelwch yn dda a wnewch chi ysgrifennu enw llawn, cyfeiriad ac ebost ar eich rhodd: mae'n bosib hawlio Rhodd Cymorth am gyfraniadau cymwys.

Wrth gwrs mae'n bosib talu drwy drosglwyddiad banc (Cyfrif yr Eglwys: **30-90-43 00098435**.

Diolch i bawb o'r ardal sydd wedi dangos diddordeb neu wedi cyfrannu eisoes i'n hachos. Bydd y rhoddion er budd cynnal a chadw yr eglwys.

## Gwasanaethau

**Ar y Sul**
Mae gwasanaethau St Tegai am 11.00 ar yr ail a'r pedwerydd Sul yn y mis.

Gweler rota eglwysi Bro Ogwen ym mhorth pob eglwys.

**Ar Ddydd Mercher**
Gwasanaeth 10.30, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis. Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn.

**Manylion Cyswllt**
Y Parch Ddr Gareth Lloyd yw ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen ond oherwydd ei salwch hir dymor, gofynnwn i chi gysylltu gydag Archddiacon Bangor, yr Hybarch David Parry, sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwysi ym Mro Ogwen. davidparry@churchinwales.org.uk .
Wrth gwrs gallwch hefyd gysylltu yn lleol â'n Caplan Bro, Parch Sara Roberts SaraRoberts@churchinwales.org.uk

MODURDY FFRYDLAS
Profion M.O.T.
PERCHNOGION
A.LL. ac R.W. WILLIAMS
**Stryd Fawr, Bethesda**
PROFION M.O.T.
GWASANAETH ATGYWEIRIO
TEIARS A BATRIS
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN
Ffôn: 600 723
E-bost: ffrydlas@btconnect.com

Angladdau enfys Funerals

Trefnwyr angladdau annibynnol yn cefnogi teuluoedd ar draws Gogledd Cymru i greu angladdau traddodiadol, gwyrdd, unigryw a phwrpasol.
Swyddfeydd ym Mangor a Bethesda.
Gwasanaeth amlosgiad uniongyrchol ar gael gydag arch, amlosgiad lleol, dychwelyd llwch a ffioedd proffesiynol wedi'u cynnwys £1,375
133 Stryd Fawr, Bangor • 57 Stryd Fawr, Bethesda
01248 351631 post@enfysfunerals.co.uk

ARBENIGWR MEWN LLORIAU COED CALED
A.G.L. Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
**Andrew G. Lomozik B.A.**
**Ffôn:** 01248 602117
**Symudol:** 07835487909

*Oes gennych chi ddiddordeb mewn hysbysebu yn Llais Ogwen?*

# CHWARAEON

## Bowlio efo Bys a Bawd

### Rownd Robin

Ar b'nawn Sadwrn braf yn niwedd Ebrill, trefnodd y clwb bowlio ddiwrnod o fowlio cystadleuol ar ffurf 'rownd robin' lle roedd y chwaraewyr yn cael eu dewis allan o het i gystadlu yn erbyn eraill. Daeth tua dwsin o chwaraewyr ynghyd i ymuno yn yr hwyl. Doedd dim bwriad i wneud elw mawr o'r diwrnod oherwydd dim ond swm bychan a dalai'r aelodau am chwarae.

### Y Chwaraewyr

Ymhlith y rhai a drodd allan roedd Delyth a Catrin o Dregarth, Richard Jones, Nant Tŷ o'r Gerlan, George Owen o Fangor, Alan (Pops) Griffiths o Rachub, Heddwyn 'Postmon' o Faes Bleddyn, a Steve Sherrington o Dregarth, Brynmor 'Pererin' Jones o Goetmor, John 'Paentiwr' Roberts o Erw Las ac wrth gwrs, y capten poblogaidd, Maldwyn Pritchard, Prif Chwaraewr a Hyfforddwr Anrhydeddus tîm bowlio hŷn Bethesda. Am y tro cyntaf cafwyd cwmni Russel o'r Gerlan sy'n chwaraewr medrus a phrofiadol a hyfryd ydy medru dweud bod aelodau newydd yn derbyn croeso gan y clwb.



Heddwyn Postmon a Brynmor 'Pererin Jones - dau gowboi!




George a John – Cynghorydd doeth a Phaentiwr profiadol yn chwys domen ar ôl chwarae yn y gwres



Russel a Catrin efo Steve Sherrington y tu ôl iddyn nhw



Dau o bencampwyr bowlio'r dyfodol, Owie Lloyd Williams a Jac Lloyd Williams yn astudio techneg y chwaraewyr efo'u mam, Elin.




Delyth a Richard yn mwynhau'r chwarae

**Canlyniadau**

Yn y gystadleuaeth bu'r canlyniad fel a ganlyn; Catrin yn curo Steve 11- 0

Richard yn curo John 5 – 4 gyda John yn derbyn ana fi un o gyhrau ei goesau

Catrin yn curo Richard yn y rownd derfynol o 11- 5. Diolch i bawb am gystadlu a chefnogi'r clwb bowlio ar y diwrnod a diolch i Richard am drefnu lluniaeth ysgafn i bawb yn ystod y prynhawn gwresog.

## Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**
mairpenybryn@gmail.com
01248 352966

**BINGO BACH**

Cafwyd noson hwyliog o Bingo yn y Ganolfan ar 24 Ebrill i godi arian at SANDS, ble llwyddwyd i godi £357 tuag at yr achos. Diolch yn fawr iawn i bawb am bob cyfraniad tuag at y noson. Cynhelir y Bingo nesaf ar 29 Mai yn y Ganolfan am 7yh elw tuag at y Ganolfan. Dewch draw am noson o hwyl a sbri!

**ARDDANGOSFA ARLUNIO**

Os bydd rhai ohonoch yng nghyffiniau Biwmares rhwng 20 - 23 Mai, mae gan Grŵp Arlunio Glasinfryn Arddangosfa Arlunio yn eglwys Santes Fair a Sant Nicolas, Biwmares rhwng 10yb - 4yp. Mae hyn yn cydfynd a Gŵyl Gerdd Biwmares.

**Y GANOLFAN**

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Ganolfan ar 3 Mehefin. Mae hwn yn gyfarfod agored ac mae croeso i unrhyw un fynychu. Buasai'n braf iawn cael mwy o bobl i gymryd diddordeb yn rhedeg y Ganolfan a'r gymuned.

**CYLCH GLASINFRYN**

Cafwyd cyfarfod o'r Cylch ar 8 Ebrill yn y Ganolfan. Crosawodd y Cadeirydd, Mair Griffiths, dri ymwelydd i'r cyfarfod. Cafwyd rhodd ariannol i'r Cylch gan Gyngor Cymuned Pentir, a gwerthfawrogir y rhodd yma yn fawr gan ei fod yn ein galluogi i gael siaradwyr safonol bob mis.

Daeth dau gynrychiolydd o Fanc Natwest atom i siarad am "Sut i aros yn sâff ar y Wê". Mae cymaint o sgamwyr yn cysylltu drwy'r ffôn ac mewn ebyst fel ein bod yn gorfod bod yn ymwybodol ac ar ein gwyliadwriaeth drwy'r amser i adnabod tric neu dwyll. Os ydych yn meddwl eich bod mewn perygl o gael eich twyllo cafwyd rhif ffôn ganddynt i fynd yn syth at linell benodol sef 159 - rhif pwysig i'w nodi os ydych yn amau eich bod yn cael eich twyllo. Diolchwyd i'r ddau siaradwr am bnawn addysgiadol ym myd technoleg gan Barbara Owen.

Marian, Mair a Carole wnaeth y Te a Beryl enillodd y Raffl (rhoddedig gan Carys).


Edrychwn ymlaen at sgwrs ar "Achub Draenogod" gan Sue Timperley ar 10 Mehefin yn y Ganolfan am 2yp. Croeso cynnes iawn i bawb.



**PRIODAS DDIAMWNT**

Llongyfarchiadau i Hefin a Nesta Parry, Tŷ Capel, Caerhun ar ddathlu Pen-Blwydd Priodas Diamwnt ar 2 Ebrill, 2026. Priododd y ddau yng Nghapel Caerhun yn 1966. I ble mae'r blynyddoedd wedi mynd?

# CROESAIR





**AR DRAWS**
1 Y mab bychan o Gaeredin, ond cewch un mawr mewn sawl tref yng Nghymru (3)
3 Mae'r cwpan yn fyddar er fod ganddo un (5)
7 Mae yn colli parch am ei fod yn fusgrell a gwan (4)
8 Gêm syml i ddau dîm mewn llawer ysgol gynradd (8)
9 Hen gred gyffredin er nad oes llawer o sail iddi, medda nhw (4,5)
12 Fel 4 I Lawr ond i fyny ! (6)
13 Medi, er enghraifft (6)
15 Fel diarhebion, ceir doethinebau yn eu geiriau (9)
18 Cyfrol o fapiau, ond nid yn ddu a gwyn (5,3)
20 Mae Dewi ar fai ; nid chwarter i naw oedd hi (4)
21 Gall fod yn siglo yn yr awel yn lliwgar ac eiddil a brau (5)
22 "Nwy yn y - - - " ♫ Dewi P 1971

**I LAWR**
1 Hir iawn (4)
2 Creaduriaid cramennog, er fod un ohonynt yn swnio'n rhyfedd (7)
3 Yn ddiarhebol mae'r frân yn gweld un gwyn (3)
4 Tyfu sy'n gyfrifol am hyn (5)
5 Beth wna'r cloc mawr rhwng trawiad pump a saith o'r gloch (4,4)
6 Hwn; ceisiwch ei ddatrys (8)
10 Aiff y cantorion i'r Gymanfa i " - - - - - - - - " (4,4)
11 Y rhai sy'n fedrus a dawnus tu hwnt mewn sgil a chrefft (8)
14 Cymdogaeth ac ysgol yn Abertawe (4,3)
16 Talaith ogleddol yn UDA sy'n ffinio efo Canada (5)
17 Ffwrn i grasu a sychu (4)
19 Yn wlyb a chroyw a'r mwyaf yn Bala (3)

**ATEBION CROESAIR EBRILL 2026**

**AR DRAWS** 6 Tacluso, 7 Cawod, 8 Sgrap, 10 Blanced, 12 Ymlynu, 13 Elusen, 15 Y Ffosydd, 17 Deunaw, 20 Ufuddhau, 22 Undod, 24 Olion, 25 Gwegian

**I LAWR** 1 Haig, 2 Cur Pen, 3 Cosbi, 4 Llafnau, 5 Bore, 8 Styffylu, 9 Ralio, 11 Diniwed, 14 Soned, 16 Suddion, 18 Eluned, 19 Llusgo, 21 Fali, 23 Olaf

Cafwyd nifer o wallau y tro hwn gan sawl un ohonoch. Dyma nhw: 'Y Somme' yn lle 'Y ffosydd' (15 Ar Draws), 'swyddygu' yn lle 'styffylu' (8 I Lawr), 'moddion' yn lle 'suddion' (16 I Lawr), ac 'o dan' yn hytrach na'r ateb cywir 'olaf' (23 i Lawr)

Mae'r canlynol i'w llongyfarch am anfon atebion hollol gywir : Judith Hughes, Llangoed; Rosemary Williams, Dulcie Roberts, Tregarth; John Ffrancon Griffith, Abergele; Rhian Phillips, Llandaf, Caerdydd; Elsi Prytherch, Waen Wen, Bangor; Iona Williams, Llanddulas; Myrddin Williams, Capel Uchaf, Clynnog

Mae'r wobr a'r clod y mis yma yn mynd i John Ffrancon Griffith, Sŵn yr Afon, 3 Tower Way, Abergele, Conwy LL22 7AY. Da iawn chi !

Atebion erbyn 5ed Mehefin, 2026 fan bellaf (ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach) i 'Croesair Mai', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD


SPAR

01248 605566

Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr 7 diwrnod yr wythnos

DAFYDD CADWALADR

CYNHYRCHION COEDLANNOL

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed Asiant system gwresogi trwy losgi coed

01248 605207